Adroddiad ar arolygiad dirybudd o

# CEF Berwyn

gan Brif Arolygydd Carchardai EF

27 Ionawr – 07 Chwefror 2025



# Cynnwys


Cyflwyniad 3

Beth sydd angen ei wella yn CEF Berwyn ........ 5

Gwybodaeth am CEF Berwyn ........ 7

Section 1 Crynodeb o'r prif ganfyddiadau ........ 9

Section 2 Arweinyddiaeth ........ 12

Section 3 Diogelwch ........ 14

Section 4 Parch ........ 27

Section 5 Gweithgarwch pwrpasol ........ 42

Section 6 Paratoi at ryddhau ........ 52

Section 7 Cynnydd o ran y pryderon o'r arolygiad diwethaf ........ 62

Appendix I Gwybodaeth am ein harolygiadau a'n hadroddiadau 65

Appendix II Geirfa ........ 68

Appendix III Rhagor o adnoddau ........ 70

# Cyflwyniad

Canfu'r arolygiad hwn ostyngiad siomedig yn ein sgôr yn y profion carchar iach ar gyfer diogelwch, o gymharol dda i ddim yn ddigon da, a oedd yn adlewyrchu'r heriau niferus sy'n wynebu'r carchar categori C cymhleth hwn yng Ngogledd Cymru. Roedd mwy o gyffuriau ar gael, ac roedd lefelau trais a hunan-niweidio yn uwch o lawer nag yn ein harolygiad yn 2022, gyda'r cyfraddau ymysg yr uchaf o'u cymharu â charchardai tebyg.

Berwyn yw'r carchar mwyaf sy'n cael ei redeg gan y sector cyhoeddus yn yr ystad ac roedd yn gartref i 1,937 o ddynion adeg yr arolygiad. Ers ein hymweliad diwethaf, mae cymhlethdod poblogaeth y carchar wedi cynyddu. Er ei fod wedi'i gynllunio'n wreiddiol gyda swyddogaeth dderbyn fach i wasanaethu llysoedd Gogledd Cymru, mae pwysau o ran poblogaeth yng Ngogledd Orllewin Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr wedi bod mor ddifrifol fel bod hyn bellach wedi'i ehangu. Yn yr arolygiad hwn, roedd tua 200 o'r carcharorion ar remánd neu heb eu dedfrydu, ac roedd llawer ohonynt yn dod o lysoedd yng Nglannau Mersi, Manceinion Fwyaf a Swydd Gaerhirfryn, gyda rhai carcharorion yn dod o Preston hyd yn oed. Roedd y carchar hefyd yn derbyn carcharorion ar ddedfrydau byr a fyddai, yn y gorffennol, wedi cael eu cadw mewn carchardai derbyn lleol. Roedd hyn yn golygu bod carcharorion categori C tymor hwy, yr oedd y carchar wedi'i gynllunio ar eu cyfer, bellach yn gyfran lawer llai o'r boblogaeth nag yn y gorffennol.

O dan arweinyddiaeth abl y llywodraethwr cymharol newydd, er gwaethaf llawer o heriau, roedd egni ymysg yr uwch arweinwyr ac nid oeddent yn teimlo'n hunanfodlon nac yn ddiymadferth. Yn yr adroddiad hunanasesu, dangosodd y llywodraethwr y gwaith yr oedd hi a'i thîm yn ei wneud i wella gallu staff ac arweinwyr. Roedd pwyslais derbyniol ar gefnogi a hyfforddi rheolwyr canol a oedd yn amrywio o ran eu profiad a'u gweledigaeth o amgylch y carchar. Roedd rowndiau recriwtio llwyddiannus wedi arwain at well darlun staffio – problem a oedd wedi parhau yn y carchar hwn ers iddo agor yn 2017. Roedd arweinwyr wedi sefydlu cynlluniau mentora a chefnogi ar gyfer swyddogion newydd, a oedd yn arwain at lefelau gwell o ran cadw staff. Roedd rhywfaint o gydlynu da hefyd gyda gwasanaethau ailsefydlu yng Nghymru a Gogledd Orllewin Lloegr i wella'r cynnig i garcharorion o ble bynnag y daethant.

Roedd gormod o garcharorion nad oedd ganddynt ddigon i'w wneud gyda'u hamser, gyda 25% yn ddi-waith a 27% mewn gwaith rhan-amser neu addysg. Roedd presenoldeb mewn addysg a hyfforddiant yn isel ar 70% er bod yr addysgu o safon resymol yn gyffredinol. Gallai'r rhai sydd mewn gwaith amser llawn ddisgwyl bod allan o'u celloedd am hyd at naw awr y dydd, ond roedd y nifer fawr o garcharorion di-waith yn cael cyn lleied â dwy awr allan o'u celloedd. Heb os, roedd y gwendidau mewn gweithgarwch pwrpasol yn achosi diflastod a chymryd cyffuriau yn sgil hynny, ac roedd profion ar hap yn dangos bod 33% o'r boblogaeth yn defnyddio cyffuriau. Roedd gweithgarwch pwrpasol yn arbennig o gyfyngedig i ddynion ar adain y carcharorion agored i niwed.

Roedd yr amrywiaeth o gymhellion i gymell carcharorion a gwobrwyo'r rheini a oedd yn ymddwyn yn dda yn siomedig. Roedd y drefn ar yr adain uwch yn gyfyngedig ac nid oedd yr ystod o fentrau dan arweiniad carcharorion mor eang â'r hyn rydym ni wedi'i weld mewn carchardai eraill. Roedd hwn yn gyfle a gollwyd i roi mwy o ymdeimlad o ddatblygiad i garcharorion a'u paratoi ar gyfer symud i garchardai categori is neu i gael eu rhyddhau.

Braf oedd gweld gwelliant yn rhai o'r trefniadau diogelu'r cyhoedd ac roedd yr uned rheoli troseddwyr yn gweithredu'n fwy effeithiol nag yn ein harolygiad diwethaf. Dyna pam ein bod wedi rhoi sgôr uwch ar gyfer y categori paratoi i ryddhau i safon rhesymol dda. Roedd gwaith allweddol, ffordd arall o gefnogi cynnydd carcharorion a helpu i ddatrys problemau, yn wael, gyda fawr iawn o sesiynau o unrhyw ansawdd yn cael eu cynnig. Efallai fod y diffyg gwaith allweddol hefyd wedi egluro'r nifer enfawr o geisiadau electronig yr oedd carcharorion yn eu cyflwyno.

Roedd yr amodau ar draws y carchar yn dda o hyd ac roedd yr adeilad wedi cael ei gynnal a'i gadw'n dda ar y cyfan. Roedd carcharorion yn gwerthfawrogi'r cawodydd yn y celloedd a'r gliniaduron, ond roeddent yn cwyno'n aml nad oedd y swyddogion amhrofiadol yn gallu rhoi'r cymorth yr oedd ei angen arnynt.

Wrth adael Berwyn, teimlai'r arolygwyr pe gellid gwella'r drefn, lleihau'r mewnlif o gyffuriau a chanfod ffyrdd mwy creadigol o gymell carcharorion, fod posibilrwydd da y gallai'r carchar barhau i wella.  Yn ystod y misoedd diwethaf roedd lefelau trais wedi dechrau gostwng. Amser a ddengys ai tuedd neu achos untro yw hyn.

**Charlie Taylor**
Prif Arolygydd Carchardai EF
Mawrth 2025

# Beth sydd angen ei wella yn CEF Berwyn

Yn ystod yr arolygiad hwn, nodwyd 13 o bryderon allweddol, a dylid trin chwech ohonynt fel blaenoriaethau. Pryderon â blaenoriaeth yw'r rhai sydd bwysicaf o ran gwella canlyniadau i garcharorion. Mae angen i arweinwyr a rheolwyr roi sylw ar unwaith iddynt.

Dylai arweinwyr sicrhau bod yr holl bryderon a nodir yma yn cael sylw a bod cynnydd yn cael ei olrhain drwy gynllun sy'n nodi sut a phryd bydd y pryderon yn cael eu datrys. Dylid darparu'r cynllun i Arolygiaeth Carchardai EF.

## Pryderon â blaenoriaeth

1. **Nid oedd y carchar yn ddigon diogel.** Roedd cyfraddau trais carcharorion, gan gynnwys yn erbyn staff a charcharorion eraill, wedi cynyddu ers yr arolygiad diwethaf ac roeddent yn uchel.

2. **Nid oedd gan garcharorion gymhelliant digonol i ymddwyn yn dda a chymryd rhan yn nhrefn y carchar.** Nid oedd arweinwyr wedi manteisio ar gyfleoedd i gymell ymddygiad da, yn enwedig ar gyfer carcharorion uwch, ac nid oedd y cyfleoedd ar gael yn cael eu hyrwyddo'n dda.

3. **Roedd lefelau uchel o gamddefnyddio sylweddau yn peryglu diogelwch, lles ac adsefydlu carcharorion.**

4. **Nid oedd digon o garcharorion yn elwa o ryngweithio o ansawdd da â staff.** Roedd y gwaith allweddol yn aneffeithiol ac nid oedd yn cefnogi cynnydd wrth fwrw ymlaen â dedfrydau.

5. **Nid oedd digon o garcharorion mewn addysg neu hyfforddiant amser llawn, ac roedd tua chwarter ohonynt yn ddi-waith.**

6. **Roedd presenoldeb carcharorion mewn gweithgareddau yn rhy isel.**

## Pryderon allweddol

7. **Roedd lefelau'r hunan-niweidio yn parhau'n rhy uchel.** Nid oedd gan y carchar gynllun gweithredu tymor hir i leihau hunan-niweidio.

8. **Nid oedd y prosesau cwyno a gwneud cais yn effeithiol.** Nid oedd llawer o sicrhau ansawdd gan arweinwyr, ac ni ddadansoddwyd data i lywio cynlluniau gwella.

9. **Roedd amser allan o'r gell yn annigonol ar gyfer carchar categori C yn bennaf.** Roedd un carcharor o bob pedwar yn ddi-waith a than glo am 22 awr bob dydd. Roedd amser allan o'r gell yn arbennig o wael i'r holl garcharorion ar ddydd Gwener ac ar y penwythnos.

10. **Nid oedd trefniadau ar gyfer cynefino a dyrannu i weithgareddau bob amser yn diwallu anghenion carcharorion yn ddigon da.** Roedd rhai carcharorion yn cael trafferth i ymgysylltu pan nad oeddent yn llwyr ddeall pam eu bod wedi cael eu dyrannu i gwrs.

11. **Nid oedd strategaethau addysgu yn gyson gryf.** Nid oedd rhywfaint o'r addysgu'n ddigon diddorol na heriol.

12. **Roedd llawer o agweddau ar y strategaeth ddarllen yn dal yn y camau datblygu cynharaf, ac nid oedd digon o ddarpariaeth ar gyfer eginddarllenwyr.**

13. **Nid oedd carcharorion yn cael digon o gyfleoedd i ddangos gostyngiad mewn risg, a oedd yn effeithio ar eu gallu i fwrw ymlaen yn eu dedfryd.** Roedd cynnig y rhaglen ymddygiad troseddol yn rhy gyfyngedig, ac nid oedd rheolwyr troseddwyr yn y carchar (POM) yn cwblhau digon o waith yn canolbwyntio ar risg gyda charcharorion.

# Gwybodaeth am CEF Berwyn

**Tasg y carchar**
Carchar derbyn, hyfforddi ac ailsefydlu categori C i ddynion.

**Llety arferol ardystiedig a chapasiti gweithredol (gweler yr Eirfa) fel yr adroddwyd gan y carchar yn ystod yr arolygiad**
Carcharorion a ddaliwyd adeg ein hymweliad: 1,937
Capasiti arferol a ardystiwyd ar gyfer y llinell sylfaen: 2,000
Capasiti arferol a ardystiwyd ac sy'n cael ei ddefnyddio: 2,000
Capasiti gweithredol: 2,000

**Poblogaeth y carchar**
- Derbyniwyd 3,627 o garcharorion newydd yn ystod y flwyddyn flaenorol.
- Roedd 500 o garcharorion (26%) wedi'u hadalw o'r gymuned am dorri amodau trwydded.
- Ar gyfartaledd, mae 250 o garcharorion yn cael eu rhyddhau i'r gymuned bob mis.
- Roedd 52 o garcharorion yn wladolion tramor.
- Roedd llai na 10% o garcharorion o gefndiroedd du ac ethnig leiafrifol.
- Roedd 251 o garcharorion yn cael cymorth camddefnyddio sylweddau.
- Caiff 86 o garcharorion eu hatgyfeirio am asesiad iechyd meddwl bob mis.

**Statws y carchar (cyhoeddus neu breifat) a darparwyr allweddol**
Cyhoeddus

Darparwr iechyd corfforol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Darparwr iechyd meddwl: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Darparwr triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Darparwr iechyd deintyddol: Gwasanaethau deintyddol cymunedol Gogledd Cymru
Darparwr fframwaith addysg mewn carchardai: Novus Cambria
Contractiwr hebrwng: GEOAmey

**Grŵp carchardai**
Cymru

**Cyfarwyddwr Grŵp y Carchar**
Giles Mason

**Hanes cryno**
Agorodd CEF Berwyn ym mis Chwefror 2017 a dyma'r carchar sector cyhoeddus mwyaf yng Nghymru a Lloegr. Mae'n darparu swyddogaeth derbyn, hyfforddi ac ailsefydlu ar gyfer carcharorion o Ogledd Cymru (ac eithrio troseddwyr ifanc a charcharorion diogelwch uchel) a Gogledd Orllewin Lloegr.

**Disgrifiad byr o unedau preswyl**
Tri bloc mawr o dai, pob un wedi'i rannu'n wyth adain lai gyda dau landin.

Alwen – poblogaeth gyffredinol, carcharorion â dedfryd oes a charcharorion uwch
Bala – poblogaeth gyffredinol, carcharorion uwch, cyn-filwyr, cymorth iechyd meddwl (Menai)
Ceiriog – carcharorion cynefino, gwladolion tramor a dedfrydau byr, y boblogaeth gyffredinol, carcharorion agored i niwed, carcharorion uwch, byw heb sylweddau dan gymhelliant.

**Enw'r llywodraethwr a dyddiad dechrau ar ei swydd**
Rebecca Hayward, 31 Hydref 2023

**Newidiadau i lywodraethwyr ers yr arolygiad diwethaf**
Nick Leader OBE Ebrill 2019 – 31 Awst 2023
Rachel James, llywodraethwr dros dro 1 Medi – 30 Hydref 2023

**Cadeirydd y Bwrdd Monitro Annibynnol**
John Atherton

**Dyddiad yr arolygiad diwethaf**
16-27 Mai 2022

# Section 1 Crynodeb o’r prif ganfyddiadau

## Canlyniadau i garcharorion


1.1 Rydym yn asesu canlyniadau ar gyfer carcharorion yn erbyn pedwar prawf carchar iach: diogelwch, parch, gweithgarwch pwrpasol a pharatoi ar gyfer rhyddhau (gweler Atodiad I am ragor o wybodaeth am y profion). Rydym hefyd yn cynnwys sylwadau ar arweinyddiaeth yn y carchar (gweler Adran 2).

1.2 Yn yr arolygiad hwn o CEF Berwyn, gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion fel a ganlyn:

- ddim yn ddigon da o ran diogelwch
- yn weddol dda o ran parch
- ddim yn ddigon da ar gyfer gweithgarwch pwrpasol
- yn weddol dda o ran paratoi ar gyfer rhyddhau.

1.3 Y tro diwethaf i ni arolygu CEF Berwyn oedd yn 2022. Mae Ffigur 1 yn dangos sut mae canlyniadau i garcharorion wedi newid ers yr arolygiad diwethaf.

**Ffigur 1: Canlyniadau carchar iach CEF Berwyn yn 2022 a 2025**




## Cynnydd o ran y prif flaenoriaethau a phryderon o’r arolygiad diwethaf

1.4 Yn ein harolygiad diwethaf yn 2022, nodwyd 11 pryder, gyda phedwar ohonynt yn feysydd o bryder â blaenoriaeth.

1.5 Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod sylw wedi cael ei roi i ddau o’n pryderon â blaenoriaeth a bod sylw rhannol wedi cael ei roi i’r ddau arall. Roedd y pryderon yr aethpwyd i’r afael â nhw ym meysydd arweinyddiaeth a pharch, ac roedd y rhai yr aethpwyd i’r afael â nhw’n

rhannol yn ymwneud â gweithgarwch pwrpasol. Ewch i Adran 7 i weld y rhestr lawn o'r cynnydd yn erbyn y pryderon.

## Arferion cadarnhaol nodedig

1.6 Rydym yn diffinio arferion cadarnhaol nodedig fel:

> Tystiolaeth bod ein disgwyliadau'n cael eu bodloni i sicrhau canlyniadau arbennig o dda i garcharorion, a/neu ddulliau arbennig o wreiddiol neu greadigol o ddatrys problemau.

1.7 Canfu'r arolygwyr saith enghraifft o arferion cadarnhaol nodedig yn ystod yr arolygiad hwn, y gallai carchardai eraill ddysgu ohonynt neu eu hefelychu. Oni nodir yn wahanol, nid yw'r enghreifftiau hyn yn cael eu gwerthuso'n ffurfiol, maent yn giplun o adeg benodol ac efallai na fyddant yn addas ar gyfer sefydliadau eraill. Maent yn dangos rhai o'r ffyrdd y gellid bodloni ein disgwyliadau, ond nid dyma'r unig ffordd o bell ffordd.

| Enghreifftiau o arferion cadarnhaol nodedig | | |
|---|---|---|
| a) | Roedd staff o'r timau diogelwch ac addysg gorfforol yn gweithio gyda gweithwyr cymheiriaid i gyflwyno rhaglen addysg gorfforol wedi'i thargedu ar gyfer carcharorion a oedd wedi bod yn ymwneud â thrais. Roedd y fenter yn defnyddio chwaraeon i ymgysylltu â'r carcharorion anodd eu cyrraedd hyn i wella eu sgiliau cyfathrebu a'u sgiliau rhyngbersonol. | Gweler paragraff 3.19 |
| b) | Roedd arweinydd iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau o'r maes gofal iechyd wedi cael ei benodi i sicrhau gofal a thriniaeth dda i gleifion â phroblem iechyd meddwl a oedd hefyd ag anghenion camddefnyddio sylweddau. Roedd cleifion o'r fath yn cael eu rheoli drwy'r llwybr mwyaf effeithiol, ac roeddent yn adlewyrchu darpariaeth gymunedol leol, a oedd yn golygu bod y trefniadau ar gyfer y carcharorion hyn ar ôl iddynt gael eu rhyddhau i'r gymuned yn fwy di-dor. | Gweler paragraff 4.69 |
| c) | Roedd y gweithdai dysgu galwedigaethol o ansawdd eithriadol. Roedd digon o le ac adnoddau i ddarparu amgylcheddau o safon diwydiant er mwyn i ddysgwyr ddatblygu sgiliau ac achrediadau gwerthfawr, er enghraifft mewn gweithdai adeiladu, cegin hyfforddi, siop farbwr, gwaith warysau a logisteg. Roedd adnoddau da yn y gampfa, y neuadd chwaraeon a'r cae bob tywydd hefyd ac roeddent yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi dysgu a chyrhaeddiad carcharorion. | Gweler paragraff 5.34 |

| | | |
|---|---|---|
| d) | Roedd amrywiaeth eang o sefydliadau wedi'u lleoli gyda'i gilydd mewn hyb ailsefydlu trawiadol, a oedd yn galluogi cyfathrebu a chydweithio effeithiol. Gallai carcharorion fynd i'r hyb i drafod eu cynlluniau ailsefydlu wrth iddynt baratoi i ddychwelyd i'r gymuned. | Gweler paragraffau 6.8 a 6.42 |
| e) | Roedd gan y staff a oedd yn gweithio yn y neuadd ymweliadau lyfr digwyddiadau i gofnodi materion amddiffyn plant neu bryderon ynghylch ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol gan garcharorion. Roedd y cofnodion yn cael eu hychwanegu gan staff y carchar yn ogystal â gan y darparwr gwasanaethau teulu, ac yna'n cael eu rhannu fel y bo'n briodol. | Gweler paragraff 6.26 |
| f) | Roedd y carchar yn darparu hyb lles llachar a chroesawgar i ddysgwyr, gan gynnwys siop goffi, bwyty a barbwr. Roedd carcharorion yn elwa o'r cyfleusterau hyn ar gyfer addysg a gwaith ac yn eu gwerthfawrogi, gan ddangos lefelau uchel o ddiddordeb ac ymddygiad cadarnhaol pan oeddent yn yr ardaloedd hyn. | Gweler paragraff 6.35 |
| g) | Roedd cynrychiolwyr o'r rhan fwyaf o dimau tai awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru yn mynychu'r carchar bob mis i gwblhau asesiad tai gyda charcharorion sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ar ôl cael eu rhyddhau. Roedd hyn yn rhoi mwy o amser i staff carchardai gefnogi carcharorion eraill heb dai awdurdod lleol. | Gweler paragraff 6.43 |

# Section 2 Arweinyddiaeth

**Mae arweinwyr yn darparu'r cyfarwyddyd, yr anogaeth a'r adnoddau i sicrhau canlyniadau da i garcharorion.** (I gael diffiniad o arweinwyr, gweler yr Eirfa)

2.1 Mae arweinyddiaeth dda yn helpu i sbarduno gwelliannau a dylai arwain at well canlyniadau i garcharorion. Mae'r naratif hwn yn seiliedig ar ein hasesiad o ansawdd yr arweinyddiaeth gyda thystiolaeth o ffynonellau gan gynnwys yr adroddiad hunanasesu, trafodaethau â rhanddeiliaid ac arsylwadau a wnaed yn ystod yr arolygiad. Nid yw'n arwain at sgôr.

2.2 Rhoddodd y llywodraethwr a'r dirprwy lywodraethwr arweinyddiaeth egnïol a meddylgar, gan annog a galluogi tîm cymwys o uwch reolwyr i ddatblygu eu meysydd. Roedd arweinwyr yn cydnabod rôl hanfodol rheolwyr rheng flaen ac roeddent yn buddsoddi yn eu datblygiad. Roeddent hefyd wedi creu rolau uwch reolwyr newydd ym maes diogelwch, datblygu staff a diogelu'r cyhoedd, a oedd yn dangos ymrwymiad i wella meysydd sy'n peri risg sylweddol.

2.3 Roedd Berwyn wedi parhau i wynebu heriau o ran staffio'r carchar ers yr arolygiad diwethaf, a oedd wedi effeithio ar gyflawni canlyniadau mewn meysydd pwysig, ond roedd arweinwyr wedi cymryd camau i wella cyfraddau cadw staff ac erbyn hyn roedd y lefelau staffio bron yn gyflawn. Roedd gan oddeutu dwy ran o dair o'r staff gweithredol lai na dwy flynedd o brofiad, ond roeddent yn cael cefnogaeth dda gan eu rheolwyr, tîm o gyd-fentoriaid newydd, a'r rheolwr gallu a datblygu newydd.

2.4 Roedd arweinwyr Berwyn yn wynebu cymhlethdod ychwanegol oherwydd yr angen i ddatblygu trefniadau partneriaeth effeithiol gyda rhanddeiliaid yng Nghymru a Lloegr, gyda gwahanol fodelau comisiynu a darparu. Roeddent yn mynd i'r afael â'r heriau hyn yn dda ac roedd y berthynas â phartneriaid allweddol yn effeithiol. Er enghraifft, roedd y llywodraethwr yn gweithio gyda broceriaid cyflogaeth yng Nghymru a Lloegr i ddatblygu'r strategaeth gyflogaeth, gan wella'r cymorth sydd ar gael i garcharorion o Gymru a Lloegr.

2.5 Roedd y lefelau uchel o drais a chyffredinrwydd cyffuriau yn difetha'r cynnydd yn CEF Berwyn, er bod arweinwyr ym maes diogelwch a diogeledd yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â hyn. Fodd bynnag, nid oedd arweinwyr wedi manteisio ar gyfleoedd i gymell ymddygiad da; nid oedd y cynnig i garcharorion uwch yn ddigon ysgogol.

2.6 Er bod ansawdd ac ehangder yr addysg, yr hyfforddiant a'r gwaith sydd ar gael i garcharorion yn dda ar y cyfan, nid oedd arweinwyr wedi sicrhau bod yr holl garcharorion yn mynychu eu lleoliadau nac yn cael digon o amser allan o'r gell i gwblhau tasgau domestig eraill. Roedd trefn newydd a oedd yn fwy digonol ar gyfer carcharorion categori C yn cael ei chyflwyno i fynd i'r afael â'r mater hwn.

2.7 Er gwaethaf yr heriau niferus sy’n wynebu arweinwyr a staff, roeddent wedi cyflwyno neu gynnal rhai mentrau rhagorol a oedd yn dangos uchelgais i adsefydlu carcharorion. Roedd yr hyb llesiant newydd wedi cael ei ddylunio’n dda ac roedd yn darparu amgylchedd croesawgar a chadarnhaol i garcharorion a staff (gweler paragraff 6.35), ac roedd yr hyb ailsefydlu’n parhau i ddod ag amrywiaeth o bartneriaid at ei gilydd i gefnogi carcharorion sy’n nesáu at gael eu rhyddhau (gweler paragraffau 6.8 a 6.42).

2.8 Er bod cymhlethdod Berwyn yn sicr wedi cyflwyno rhai heriau arweinyddiaeth sylweddol, nid oedd arweinwyr wedi mynd i’r afael yn llawn â gormod o’n pryderon o’r arolygiad diwethaf. Fodd bynnag, roedd yr uwch dîm yn deall yr heriau, ac roeddent yn wydn ac yn benderfynol o sbarduno gwelliant, gan ddefnyddio data yn well i ddatblygu eu strategaethau; roedd hyn yn rhoi rhywfaint o hyder i ni o ran sut bydd pethau’n symud yn y dyfodol.

# Section 3 Diogelwch

**Mae carcharorion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu cadw'n ddiogel.**

## Dyddiau cynnar yn y carchar

Canlyniadau disgwyliedig: Mae carcharorion sy'n trosglwyddo i'r carchar ac oddi yno yn ddiogel ac yn cael eu trin yn weddus. Mae carcharorion sy'n cyrraedd yn ddiogel ac yn cael eu trin â pharch. Mae risgiau'n cael eu nodi a rhoddir sylw iddynt yn y dderbynfa. Cefnogir carcharorion ar eu noson gyntaf. Mae'r gweithdrefnau cynefino'n gynhwysfawr.

3.1 Roedd nifer y carcharorion a oedd yn cyrraedd Berwyn wedi cynyddu ers yr arolygiad diwethaf, gyda 320 o garcharorion newydd yn cyrraedd bob mis ar gyfartaledd yn ystod y tri mis blaenorol. Roedd traean yn drosglwyddiadau o garchardai eraill, ac roedd dwy ran o dair yn newydd-ddyfodiaid o lysoedd a gorsafoedd heddlu. Roedd faniau fel arfer yn cyrraedd yn nes ymlaen yn y dydd, gan gynnwys gyda'r nos, felly roedd y dderbynfa'n aml yn brysur ac nid oedd rhai carcharorion yn cael eu cludo i'w celloedd tan 11pm. Er gwaethaf hyn, roedd staff y dderbynfa yn groesawgar, yn egluro'r prosesau ac yn helpu i wneud i newydd-ddyfodiaid deimlo'n gyfforddus.

3.2 Roedd y rhan fwyaf o garcharorion yn treulio o leiaf ddwy awr yn y dderbynfa, ond nid oedd llawer iddynt ei wneud. Roedd gan rai ystafelloedd cadw deledu, ond ychydig iawn o wybodaeth oedd ar gael am y carchar neu ddeunydd darllen arall. Roedd carcharorion a oedd yn gweithio fel swyddogion yn aml wedi'u lleoli yn y dderbynfa nes i'r carcharorion newydd gael eu cludo i'w hadain, gan gyflawni dyletswyddau glanhau a gweinyddu. Fodd bynnag, collwyd cyfle i'w defnyddio i gefnogi neu i roi gwybod i newydd-ddyfodiaid am y gwasanaethau neu'r gweithgareddau sydd ar gael yn Berwyn. Fodd bynnag, roedd yn gadarnhaol y gallai pawb sy'n cyrraedd o'r newydd gael pryd poeth yn y dderbynfa.



**Ystafell gadw yn y dderbynfa**

3.3 Nid oedd cyfweliadau diogelwch y noson gyntaf bob amser yn cael eu cynnal mewn digon o breifatrwydd, a allai fod wedi annog carcharorion i beidio â datgelu gwybodaeth sensitif. Yn ein harolwg, dim ond 29% ddywedodd eu bod yn gallu siarad ag aelod o staff yn breifat ar eu noson gyntaf. Fodd bynnag, roedd archwiliadau lles yn cael eu cynnal bob awr ar noson gyntaf y newydd-ddyfodiaid yn y ddalfa, ac roedd swyddogion cynefino yn cynnal cyfweliad preifat â nhw y diwrnod canlynol.

3.4 Roedd celloedd y noson gyntaf yn lân ar y cyfan, ac roedd carcharorion yn gwerthfawrogi cael cawodydd yn y gell, ond nid oeddent bob amser yn cynnwys yr eitemau priodol ac roeddent yn aml yn brin o eitemau sylfaenol, fel dillad gwely, llenni a thegell. Dywedodd rhai carcharorion nad oeddent wedi cael pecyn brecwast ar ôl cyrraedd ac nad oeddent wedi gallu bwyta na chael paned tan amser cinio y diwrnod canlynol.



**Cell noson gyntaf**

3.5 Dechreuodd y cynefino y bore canlynol gyda chyflwyniad gan gefnogwr cymheiriaid, a oedd yn ymdrin â llawer o faterion brys. Dros y ddau ddiwrnod nesaf, cyfarfu newydd-ddyfodiaid hefyd â staff o adrannau eraill, fel y gaplaniaeth, dalfa fwy diogel, gwasanaeth camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl ac ailsefydlu.

3.6 Ar ôl iddynt gwblhau'r broses gynefino, roedd y drefn ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r uned gynefino yn wael; dim ond 1.5 awr y diwrnod y gallent ei dreulio allan o'u celloedd, ynghyd ag amser i gasglu eu prydau neu eu meddyginiaeth. Ychydig iawn o amser oedd ganddyn nhw i ryngweithio â staff neu eu cyfoedion, neu i ddefnyddio'r ciosg electronig ar gyfer tasgau hanfodol, fel ychwanegu rhifau ffôn at eu cyfrif, dewis prydau bwyd neu archebu eitemau o siop y carchar, gan aros hyd at wythnos i gael eu gliniaduron personol.

3.7 Gallai newydd-ddyfodiaid brynu pecyn bwyd sylfaenol bach neu fêps, ac roedd yn gadarnhaol bod y carchar yn darparu blaenswm i'r rhai a oedd yn cyrraedd heb arian parod, y gellid ei dalu'n ôl mewn rhandaliadau. Fodd bynnag, roedd yn cymryd gormod o amser (hyd at 11 diwrnod) i lawer o garcharorion gael archeb siop lawn, a oedd yn eu gwneud yn fwy tebygol o fynd i ddyled gyda charcharorion eraill.

3.8 Roedd carcharorion agored i niwed yn cael eu cadw ar wahân ac yn ddiogel drwy gydol y broses dderbyn. Fodd bynnag, roedd prinder lle ar

adain y carcharorion agored i niwed yn golygu eu bod yn cael llety ar y brif adain gynefino, yn aml am sawl wythnos os oedd yn rhaid iddynt aros am gell unigol. Roedd gan garcharorion agored i niwed drefn ar wahân i brif ffrydio carcharorion, a oedd yr un mor wael ond nid yn waeth, a dywedodd y rhai y buom yn siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr uned gynefino.

## Annog ymddygiad cadarnhaol

Canlyniadau disgwyliedig: Mae carcharorion yn byw mewn amgylchedd diogel, ysgogol sy'n cael ei drefnu'n dda lle mae eu hymddygiad cadarnhaol yn cael ei hyrwyddo a'i wobrwyo. Ymdrinnir ag ymddygiad annerbyniol mewn modd gwrthrychol, teg, cymesur a chyson.

### Annog ymddygiad cadarnhaol

3.9 Roedd cyfraddau trais carcharorion, gan gynnwys yn erbyn staff a charcharorion eraill, wedi cynyddu ers yr arolygiad diwethaf ac roeddent yn uwch na'r rhan fwyaf o garchardai categori C. Fodd bynnag, roedd gan garchar Berwyn gymysgedd fwy cymhleth o garcharorion na charchardai categori C safonol, gan gynnwys 500 o garcharorion a oedd wedi'u hadalw o'r gymuned am dorri amodau trwydded. Wrth gymharu'r cyfraddau trais â charchardai eraill, roedd nifer y digwyddiadau'n weddol debyg.

3.10 Roedd cyfraddau trais cyffredinol wedi parhau i godi dros y flwyddyn ddiwethaf, er bod gostyngiad calonogol mewn trais rhwng carcharorion ers mis Medi 2024.

3.11 Roedd arweinwyr wedi nodi'r angen i wella diogelwch fel blaenoriaeth. Buddsoddwyd yn sylweddol mewn rheolwyr ychwanegol yn y swyddogaeth ddiogelwch i ganolbwyntio ar strategaeth y carchar i wella canlyniadau yn y maes hollbwysig hwn.

3.12 Roedd y tîm dalfa fwy diogel wedi arwain sawl cynllun dros y chwe mis blaenorol i godi ymwybyddiaeth a chynyddu perchnogaeth o faterion diogelwch ymysg staff a charcharorion. Roedd hyn yn cynnwys wythnos hyrwyddo diogelwch, gyda ffocws dyddiol ar wahanol agweddau ar waith, fel rheoli troseddwyr a chymorth i ddioddefwyr.

3.13 Roedd amnest arfau lwyddiannus wedi arwain at gasglu dros 120 o eitemau gyda'r potensial o niweidio carcharorion neu staff. Cynhaliwyd yr amnest yn gyfrinachol yn ystod amser cinio gan wirfoddolwyr staff. Roedd y tîm dalfa fwy diogel hefyd wedi cynnal arolwg carcharorion i ddeall eu pryderon ynghylch diogelwch, er nad yw'r data wedi cael ei ddadansoddi eto i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

3.14 Roedd arweinwyr wedi cyflwyno cyfarfod effeithiol ar draws yr adrannau, gan ymgysylltu â staff o'r tîm strategaeth cyffuriau, diogelwch, diogeledd a phreswyliaeth i ddeall ymhellach achosion trais. Roedd cynlluniau gweithredu credadwy hefyd i gefnogi'r gwaith hwn, gan gynnwys cynllun penodol i leihau trais a thraciwr gweithredu dalfa

fwy diogel (SCAT) anhygoel a ddatblygwyd gan ddadansoddwr rhanbarthol dalfa fwy diogel. Roedd y SCAT yn galluogi arweinwyr i adolygu tueddiadau dros amser yn hawdd, gan gynnwys y math o drais, lleoliad a demograffeg y rhai dan sylw.

3.15 Roedd strwythur y cyfarfod diogelwch wedi cael ei ddiwygio ddiwedd 2024 i wella ei effeithiolrwydd. Ochr yn ochr â'r cyfarfod ar draws yr adrannau, roedd cyfarfod sicrwydd dyddiol yn olrhain digwyddiadau, cyfarfod ymyrryd wythnosol yn cefnogi'r gwaith o reoli carcharorion ag achosion cymhleth, a chyfarfod strategaeth misol yn adolygu data. Er bod y strwythur hwn wedi helpu arweinwyr i ddeall yn well y ffactorau sy'n sbarduno trais, nid oedd y data a ddefnyddiwyd ganddynt mor ddefnyddiol ag y gallai fod wedi bod. Roedd tua 20% o'r digwyddiadau a gofnodwyd y llynedd wedi'u categoreiddio'n rhy eang ac nid oedd digon o fanylion i fod yn ddefnyddiol i arweinwyr.

3.16 Defnyddiodd y carchar gynlluniau herio, cefnogi ac ymyrryd (CSIPs, gweler yr Eirfa) i reoli carcharorion sy'n gysylltiedig â thrais. Dangosodd y tîm diogelwch fod atgyfeiriadau ar gyfer ymyriad CSIP yn briodol ac yn brydlon. Fodd bynnag, roedd diffyg dyfnder mewn llawer o gynlluniau ac roedd yr ansawdd yn anghyson. Er enghraifft, nid oedd targedau bob amser wedi'u teilwra i'r carcharor unigol nac yn gysylltiedig â'r rhesymau dros yr atgyfeiriad cychwynnol. Roedd cyflwyno sicrwydd ansawdd yn ddiweddar i fynd i'r afael â'r materion hyn yn darparu rhywfaint o dystiolaeth fod y broses yn gwella.

3.17 Defnyddiodd tîm y strategaeth cyffuriau CSIPs hefyd i gefnogi carcharorion sy'n camddefnyddio sylweddau. Er eu bod yn gyfyngedig o ran nifer, roedd y cynlluniau hyn o safon uwch ac yn dangos cefnogaeth dda i helpu carcharorion i symud ymlaen. Roedd rheolwr strategaeth cyffuriau yn y ddalfa a oedd yn mynd ati'n rhagweithiol i oruchwylio'r cynlluniau hyn yn darparu tystiolaeth o ymddygiad gwell a gostyngiad yn y defnydd o sylweddau anghyfreithlon ymysg y rheini a oedd yn rhan o'r broses.

3.18 Rhoddodd tîm seicoleg ar y safle gyngor proffesiynol i arweinwyr ar yr ymyriadau mwyaf priodol i gefnogi carcharorion ag achosion cymhleth. Nid oedd y gwaith gwerthfawr yn cael ei hyrwyddo'n eang gan reolwyr, ac nid oedd rhai staff yn ymwybodol o'r gwerth y gallai ei ychwanegu.

3.19 Roedd staff o'r timau diogelwch a'r gampfa yn gweithio gyda gweithwyr cymheiriaid i gyflwyno rhaglen addysg gorfforol wedi'i thargedu ar gyfer carcharorion a oedd wedi bod yn ymwneud â thrais. Roedd y fenter yn defnyddio chwaraeon i ymgysylltu â'r carcharorion anodd eu cyrraedd hyn i wella eu sgiliau cyfathrebu a'u sgiliau rhyngbersonol. Er mai megis dechrau y mae'r prosiect, mae ganddo gryn dipyn o botensial.

3.20 Roedd y tîm diogelwch yn cadw golwg briodol ar garcharorion a oedd yn dewis hunanynysu yn eu celloedd. Roedd carcharorion a oedd yn agored i niwed oherwydd eu trosedd wedi'u lleoli ar unedau carcharorion agored i niwed ar wahân a oedd yn eu cadw'n ddiogel rhag carcharorion eraill. Fodd bynnag, nid oedd gan y naill grŵp na'r llall fynediad cyfartal at drefn y carchar.

3.21 Yn ein harolwg, dim ond 16% o'r ymatebwyr a ddywedodd fod cyfleoedd a gwobrau i ysgogi ymddygiad da. Roedd landin gwell ar bob bloc tŷ yn cynnwys cegin fach a lolfa i garcharorion gydag offer ymarfer corff. Fodd bynnag, nid oedd digon o ddychymyg yn y gwobrau i garcharorion ar lefel uchaf y cynllun cymhelliant, ac nid oedd digon o wahaniaeth rhwng bod yn garcharor safonol neu'n garcharor â statws uwch.



**Lolfa i garcharorion uwch**

3.22 Roedd amrywiaeth o gyfleoedd ar gael i garcharorion, gan gynnwys rhywfaint o addysg a gwaith, mentora cymheiriaid ac amrywiaeth gynyddol o weithgareddau cyfoethogi. Fodd bynnag, roedd gormod o garcharorion nad oeddent yn ymwybodol o'r hyn a oedd ar gael ac nid oedd staff yn mynd ati'n rhagweithiol i'w hannog i gymryd rhan.

3.23 Roedd diffyg gwaith allweddol (gweler yr Eirfa) a chyswllt rheolaidd gan reolwyr troseddwyr yn y carchar (POMs, gweler yr Eirfa), a dim digon o amser allan o'r gell i lunio perthnasoedd effeithiol, yn golygu nad oedd staff yn mynd ati'n rhagweithiol i annog carcharorion i ymddwyn, ymgysylltu a symud ymlaen (gweler paragraffau 4.2 a 5.1). Roedd cofnodion staff mewn nodiadau achos carcharorion yn fwy tebygol o lawer o gofnodi ymddygiad negyddol na chadarnhaol.

## Dyfarniadau

3.24 Cafwyd dros 6,000 o ddyfarniadau yn ystod y 12 mis blaenorol, y rhan fwyaf ohonynt am drais, bod ag eitemau anghyfreithlon yn eu meddiant neu ddifrod i eiddo'r carchar (celloedd yn bennaf).

3.25 Adeg yr arolygiad, roedd dros 400 o gyhuddiadau heb eu datrys, ac roedd tua 320 o'r rhain yn atgyfeiriadau at yr heddlu. Roedd llawer o'r

rhain ar gyfer troseddau difrifol yn ymwneud â chyffuriau a thrais. Roedd arweinwyr wedi llunio strategaeth i fynd i'r afael â'r ôl-groniad, ond roedd gormod o ddyfarniadau naill ai'n cael eu diystyru neu ddim yn mynd rhagddynt oherwydd cyfyngiadau amser, a oedd yn tanseilio effeithiolrwydd y system fel rhwystr i ymddygiad gwael.

3.26 Cynhaliwyd y gwrandawiadau a welsom mewn amgylchedd hamddenol ac anogwyd carcharorion i gymryd rhan. Mewn un achos, roedd y swyddog cyswllt dyfarnu wedi helpu carcharor a oedd yn wynebu mwy nag un cyhuddiad i ddeall y broses. Yn ein hadolygiad o ddyfarniadau sydd wedi dod i ben, roedd gormod ohonynt lle nad archwiliwyd y dystiolaeth yn ddigonol cyn profi'r cyhuddiadau.

3.27 Roedd cyfarfod safoni dyfarniadau chwarterol, a fynychwyd gan y dirprwy lywodraethwr, yn adolygu data defnyddiol ac yn nodi camau gweithredu i wella effeithiolrwydd dyfarniadau. Fodd bynnag, roedd effaith y gwaith yn gyfyngedig gan fod y camau gweithredu'n aml yn cymryd gormod o amser i'w cymryd ac roedd yr adolygiad o ddata'n canolbwyntio ar y chwarter blaenorol yn unig, gan roi llai o gyfle i asesu tueddiadau dros amser.

**Defnyddio grym**

3.28 Roedd y defnydd o rym wedi cynyddu 7% ers yr arolygiad diwethaf, er mai dim ond 40% o'r digwyddiadau oedd yn cynnwys technegau rheoli ac atal llawn. Roedd y chwistrell analluogi PAVA wedi cael ei ddefnyddio dair gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a'r batonau unwaith. Roedd y fideo o ddigwyddiadau a adolygwyd gennym yn dangos nad oedd pob defnydd yn briodol, ond roedd craffu effeithiol gan arweinwyr wedi gwneud yn siŵr bod gwersi wedi cael eu dysgu.

3.29 Roedd llywodraethu'r defnydd o rym yn dal i fod yn amlddisgyblaethol ac yn gymharol effeithiol. Adolygodd arweinwyr amrywiaeth eang o ddata i ganfod a, lle bo'n briodol, ymchwilio i ganlyniadau anghymesur yn erbyn grwpiau o garcharorion, er enghraifft carcharorion iau.

3.30 O ganlyniad i faterion parhaus a nodwyd mewn cyfarfodydd llywodraethu, roedd arweinwyr wedi buddsoddi'n ddiweddar mewn cydlynydd defnyddio grym amser llawn i graffu mwy ar fideos a ffilmiwyd, darparu adborth mwy prydlon i staff sy'n gysylltiedig â digwyddiadau, a pharhau i hyrwyddo'r defnydd o gamerâu corff.

3.31 Roedd defnydd staff o gamerâu corff wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf, ac roedd arweinwyr yn weithgar wrth gynyddu defnydd ac ymwybyddiaeth ymhlith staff. Fodd bynnag, yn y deunydd a adolygwyd gennym, roedd y camerâu'n aml yn cael eu troi ymlaen yn rhy hwyr ar ôl i sefyllfa waethygu neu ar ôl i rym gael ei ddefnyddio'n barod, felly ni allem fod yn sicr bod staff yn mynd ati i dawelu digwyddiadau.

3.32 Roedd llety heb ei ddodrefnu wedi cael ei ddefnyddio ddwywaith, ar gyfer dau garcharor, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd pob defnydd wedi'i gyfiawnhau, ei awdurdodi'n briodol ac am gyfnod byr (45 munud mewn un achos ac ychydig dros awr yn y llall).

## Gwahanu

3.33 Roedd y defnydd o wahanu wedi cynyddu ers yr arolygiad diwethaf. Roedd y rhan fwyaf o garcharorion wedi'u gwahanu am weithredoedd treisgar, neu ymddygiad aflonyddgar sylweddol na ellid ei reoli'n ddiogel ar adeiniau prif ffrwd. Roedd hyn yn adlewyrchu'r lefelau uwch o ymddygiad treisgar a mwy o fynediad at sylweddau anghyfreithlon (gweler paragraffau 3.9 a 3.38).

3.34 Ar gyfartaledd, roedd pobl yn aros ar wahân am 11 diwrnod, o'i gymharu â saith diwrnod yn 2022. Adeg yr ymweliad hwn, dim ond un carcharor oedd wedi cael ei wahanu am dros 42 diwrnod ac fe'i trosglwyddwyd i garchar addas arall yn ystod yr arolygiad.

3.35 Roedd yr amodau byw yn dda ar y cyfan ac roedd yn gadarnhaol bod gan gelloedd gawodydd ynddynt, ond roedd rhai yn dangos tystiolaeth o draul gyda thoiledau wedi'u staenio'n wael a difrod i ffenestri. Roeddem hefyd wedi canfod achos lle nad oedd carcharor wedi cael eitemau sylfaenol fel clustog, er bod digon o stoc ar yr uned.



**Toiled yr uned wahanu (chwith) a ffenestr wedi'i thrwsio yn yr uned wahanu**

3.36 Roedd carcharorion yn cael eu hawliau sylfaenol bob dydd, ond roedd y drefn yn dal yn wael ac roeddent dan glo am y rhan fwyaf o'r dydd, heb fawr ddim i'w wneud gyda'u hamser. Roedd awyr iach ar gael iddynt ac roedd yr iardiau'n cynnwys offer ymarfer corff ar gyfer y rhai a oedd yn dewis eu defnyddio. Gallai carcharorion adael eu celloedd i gasglu eu prydau bwyd eu hunain, a oedd hefyd yn helpu staff i brofi cydymffurfiaeth.



**Iard ymarfer corff yr uned wahanu**

3.37 Roedd carcharorion ar yr uned yn gallu mynychu byrddau amlddisgyblaethol i adolygu eu harhosiad yno. Roedd y targedau a osodwyd gan y bwrdd yn aml yn arwynebol ac nid oeddent bob amser yn mynd i'r afael â'r materion a oedd wedi arwain at wahanu. Cynhaliwyd bwrdd adolygu cyn i garcharor ddychwelyd i lety prif ffrwd, ond roedd y broses ailintegreiddio ffurfiol a oedd wedi dechrau pan wahanwyd y carcharor gyntaf wedi dod i ben ers yr arolygiad diwethaf.

## Diogelwch

Canlyniadau disgwyliedig: Mae diogelwch a threfn dda yn cael eu cynnal drwy roi sylw i faterion ffisegol a gweithdrefnol, gan gynnwys cuddwybodaeth effeithiol am ddiogelwch a pherthynas gadarnhaol rhwng staff a charcharorion. Mae carcharorion yn cael eu diogelu rhag dod i gysylltiad â defnyddio sylweddau ac mae mesurau effeithiol ar waith i leihau'r cyflenwad cyffuriau.

3.38 Roedd derbyn a chludo eitemau anghyfreithlon yn y carchar yn fygythiad mawr i'w sefydlogrwydd. Yn ystod y 12 mis blaenorol, cofnodwyd dros 1,000 o ddarganfyddiadau, gan gynnwys 500 yn ymwneud â chyffuriau. Roedd cyfradd bositif y prawf cyffuriau gorfodol ar gyfer y flwyddyn flaenorol yn uchel ar 33.5%, ac roedd y profion ar sail amheuaeth wedi arwain at ganlyniadau positif o 77% dros yr un cyfnod. Nid oedd yn syndod, felly, i 60% o garcharorion ddweud yn ein harolwg ei bod yn hawdd cael cyffuriau anghyfreithlon yn Berwyn.

3.39 Roedd y llywodraethwr wedi penodi arweinydd strategaeth cyffuriau penodol a rheolwr dalfa i arwain y gwaith i fynd i'r afael â'r broblem

gyffuriau. Roeddent wedi meithrin partneriaeth gref gyda'r timau diogelwch a diogeledd i nodi'n effeithiol y risgiau sy'n codi. Roedd y cydweithio hwn wedi arwain at sawl elfen gadarnhaol o waith i liniaru'r lefel uchel o ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon. Roedd y llywodraethwr yn cadeirio cyfarfodydd yn rheolaidd gyda'r heddlu lleol a thimau cuddwybodaeth rhanbarthol i fynd i'r afael â mynediad at gyffuriau, ac roedd camau gweithredu o'r cyfarfod hwn wedi llwyddo i darfu ar lawer o ymdrechion i smyglo eitemau anghyfreithlon i'r carchar.

3.40 Rhoddwyd sylw hefyd i wendidau mewn diogelwch ffisegol. Roedd hyn yn cynnwys newid rhwydi diogelwch a ddifrodwyd yn ddiweddar a newid yn brydlon ffenestri a oedd wedi'u difrodi'n fwriadol, a oedd yn lleihau'r risg y byddai drôn yn dod i mewn.

3.41 Er gwaethaf gwaith tîm amlddisgyblaethol da a mentrau cadarnhaol i darfu ar gyflenwi, nid oedd arweinwyr eto wedi llunio cynllun gweithredu manwl i leihau'r cyflenwad a'r galw er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn fwy strategol ac yn gyflymach. Roedd hyn yn golygu nad oeddent wedi nodi camau gweithredu'n glir i fynd i'r afael â ffactorau eraill a oedd yn cynyddu'r galw am gyffuriau, gan gynnwys dim llawer o amser allan o'r gell, diffyg gwaith allweddol effeithiol a chyswllt â'r POM, a cholli cyfle i annog a hyrwyddo ymddygiad mwy cadarnhaol (gweler paragraffau 3.23, 4.3 a 6.14).

3.42 Roedd yr hyb cuddwybodaeth yn cael ei arwain yn dda ac roedd y tîm yn ymwybodol iawn o'r risgiau eraill sy'n effeithio ar sefydlogrwydd y carchar. Er gwaethaf nifer fawr iawn o adroddiadau o guddwybodaeth (dros 20,000 yn y flwyddyn flaenorol), ystyriwyd pob un yn ofalus a deliwyd â nhw'n brydlon. Roedd asesiad tactegol misol y carchar o risgiau yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i nodi amcanion diogelwch ac i gyfeirio adnoddau.

3.43 Nid oedd rhai agweddau ar ddiogelwch gweithdrefnol bob amser yn effeithiol nac yn gymesur â'r risg a gyflwynir gan garcharorion categori C. Er enghraifft, er bod grwpiau mawr o garcharorion yn cael eu rhyddhau o'u celloedd gyda'i gilydd yn ystod cyfnodau cymdeithasu, roedd staff yn rhyddhau carfannau bach o ddim ond pump neu chwech ar y tro i gasglu eu prydau bwyd. Roedd hyn yn wrth-risg, yn cymryd amser ac nid oedd yn gadael amser i garcharorion fwyta'n gymunedol. Ar y llaw arall, lle'r oedd mwy o risg adeg rhoi meddyginiaeth ar bresgripsiwn, roedd goruchwyliaeth staff yn wael (gweler paragraff 4.82).

## Diogelu

Canlyniadau disgwyliedig: Mae'r carchar yn darparu amgylchedd diogel sy'n lleihau'r risg o hunan-niweidio a hunanladdiad. Mae carcharorion sydd mewn perygl o hunan-niweidio neu hunanladdiad yn cael eu nodi ac yn cael gofal a chymorth priodol. Mae pob oedolyn agored i niwed yn cael ei adnabod, ei amddiffyn rhag niwed ac esgeulustod ac yn cael gofal a chymorth effeithiol.

### Atal hunanladdiad a hunan-niweidio

3.44 Ni chafwyd yr un hunanladdiad ymysg carcharorion ers yr arolygiad blaenorol. Nid oedd arweinwyr yn monitro argymhellion adroddiadau blaenorol yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth (yr Ombwdsmon) yn rheolaidd yn dilyn marwolaethau yn y ddalfa i roi tawelwch meddwl iddynt eu hunain eu bod yn dal i gael eu dilyn ar ôl eu rhoi ar waith, ond roedd ganddynt gynlluniau credadwy i wneud hynny.

3.45 Cwblhawyd ymchwiliadau i hunan-niweidio difrifol yn brydlon, ond nid oeddent fel mater o drefn yn nodi gwersi ehangach i'w dysgu nac yn gwneud argymhellion i wella ymarfer ac atal digwyddiadau yn y dyfodol. Unwaith eto, roedd gan arweinwyr gynlluniau i fynd i'r afael â hyn gyda hyfforddiant ychwanegol a thrwy adolygu'r gwersi a ddysgwyd yn y cyfarfod diogelwch misol.

3.46 Roedd y gyfradd hunan-niweidio yn dal i fod yn uchel ac wedi bod yn cynyddu am dipyn o'r flwyddyn ddiwethaf, er bod y cynnydd hwn wedi dangos arwyddion o arafu yn ystod y misoedd diwethaf. Roedd lefelau angen ymhlith y boblogaeth yn uchel. Yn ein harolwg, dywedodd 50% eu bod yn teimlo'n isel eu hysbryd a 22% eu bod yn teimlo fel lladd eu hunain pan gyrhaeddon nhw'r carchar. Dywedodd llawer mwy o garcharorion nag yn yr arolygiad blaenorol, 36% o'i gymharu â 17%, eu bod wedi cael eu cefnogi gan waith rheoli achosion y broses asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT) ar gyfer y risg o hunanladdiad neu hunan-niweidio.

3.47 Roedd arweinwyr yn defnyddio data'n dda i ddeall yr hyn sy'n sbarduno hunan-niweidio ymysg y boblogaeth gymhleth, ac roeddent wedi nodi diffyg gweithgarwch pwrpasol, camddefnyddio sylweddau a rhwystredigaethau yn ystod dyddiau cyntaf carcharorion yn y ddalfa fel ffactorau allweddol. Roeddent yn cymryd camau mewn ymateb i hyn; roedd hyn wedi cynnwys rhai mesurau synhwyrol dros gyfnod y Nadolig wedi'u targedu at y rhai y credwyd eu bod mewn mwy o berygl o hunan-niweidio bryd hynny.

3.48 Fodd bynnag, ar draws y carchar, nid oedd digon o weithgarwch pwrpasol na hamdden ar gyfer y rheini mewn argyfwng, dim digon o amser allan o'r gell a gwaith allweddol aneffeithiol. Nid oedd y carchar bob amser yn darparu amgylchedd a oedd yn arwain at wella lles carcharorion (gweler paragraffau 5.1 a 4.3). Nid oedd cynllun

gweithredu tymor hir wedi'i gofnodi ar gyfer y carchar i leihau hunan-niweidio a fyddai'n dod ag adrannau ar draws y carchar at ei gilydd i ganolbwyntio ar y mater hwn.

3.49 Yn ogystal ag adolygu ystod eang o ddata, roedd cyfarfodydd diogelwch misol hefyd yn cynnwys mewnbwn meddylgar ac ystyrlon gan y Samariaid a Gwrandawyr (carcharorion a hyfforddwyd gan y Samariaid i ddarparu cymorth emosiynol cyfrinachol i'w cyfoedion). Roedd hyn yn rhoi cipolwg gwerthfawr gan garcharorion ac, o ganlyniad, roedd y cynllun Gwrandawyr yn gweithio'n dda, gyda galwadau'n cael eu hwyluso dros nos lle roedd angen.

3.50 Roedd y cyfarfod ymyriadau diogelwch (SIM) wythnosol yn fforwm effeithiol ar gyfer trafod y gofal a ddarperir i garcharorion ag achosion arbennig o gymhleth. Roedd y cofnodion yn dangos trafodaethau amlddisgyblaethol da ynghylch y ffordd orau o ddeall a diwallu anghenion unigol, a bod gwahanol ddulliau'n cael eu treialu pan nad oedd un yn llwyddiannus.

3.51 Fodd bynnag, i'r rhan fwyaf o garcharorion sy'n cael eu cefnogi gan waith rheoli achosion ACCT, roedd diffyg cymorth o ddydd i ddydd. Dywedodd y carcharorion y buom yn siarad â nhw, er eu bod yn gwerthfawrogi bod staff yn cadw llygad arnynt, nad oeddent bob amser yn effeithiol o ran datrys y problemau sylfaenol a oedd yn arwain at hunan-niweidio, fel materion yn ymwneud â meddyginiaeth, pryderon iechyd meddwl neu deimlo dan fygythiad ar yr adain. Nid oedd gwaith allweddol yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi carcharorion a oedd mewn perygl o hunan-niweidio.

3.52 Nid oedd carcharorion mewn argyfwng ac o dan oruchwyliaeth gyson yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau'r drefn ac yn hytrach roeddent yn cael eu cadw dan glo. Nid oedd staff a ddyrannwyd i'r rôl bob amser yn ymgysylltu'n adeiladol ac yn gadarnhaol â'r carcharorion hyn, gan ystyried bod y dasg hon yn un oruchwyliol yn unig.

3.53 Roedd y dogfennau ACCT a welsom yn dangos nad oedd cynlluniau gofal bob amser yn adlewyrchu risgiau a sbardunau a nodwyd carcharor. Roedd staff yr adeiniau'n cadw cofnodion manwl o'r sgyrsiau roeddent wedi'u cael â charcharorion drwy gydol yr wythnos, ond nid oedd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio mewn adolygiadau ACCT yn y dyfodol i sbarduno sgyrsiau â charcharorion nac i ddiwygio neu ddiweddaru cynlluniau gofal i'w cefnogi'n well.

### Diogelu oedolion sydd mewn perygl (gweler yr Eirfa)

3.54 Roedd y strategaeth leol ar gyfer diogelu oedolion yn hen, ac nid oedd arweinydd diogelu'r carchar yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda bwrdd diogelu oedolion yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, roedd uwch arweinwyr wedi bod yn gweithio'n frwd i ailadeiladu cyswllt, ac roeddent yn deall pryd i ofyn am gyngor ac arweiniad gan bartneriaid allanol; cafwyd dau atgyfeiriad at y bwrdd lleol diogelu oedolion yn ystod y 12 mis blaenorol.

3.55 Roedd y swyddogion adain y gwnaethom siarad â nhw yn dangos ymwybyddiaeth resymol o ddangosyddion bregusrwydd, ac yn dweud y byddent yn cyfeirio unrhyw garcharorion yr oedd ganddynt bryderon amdanynt at eu rheolwr neu at y SIM wythnosol, a oedd yn briodol.

# Section 4 Parch

**Mae carcharorion yn cael eu trin mewn modd sy'n parchu eu hurddas.**

## Perthynas rhwng staff a charcharorion

Canlyniadau disgwyliedig: Mae carcharorion yn cael eu trin â pharch gan staff drwy gydol eu cyfnod yn y carchar ac fe'u hanogir i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd a'u penderfyniadau eu hunain.

4.1 Yn ein harolwg, dim ond 51% o garcharorion ddywedodd eu bod yn teimlo bod staff yn eu trin â pharch, o'i gymharu â'r gyfradd gymharol o 72%. Roedd tua 100 o swyddogion newydd wedi dechrau gweithio yng Ngharchar Berwyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac roeddent yn dal i ddysgu'r swydd. Roedd yr adeiniau yn aml yn cael eu staffio gan swyddogion newydd yn bennaf, gan arwain at rwystredigaeth ymysg rhai carcharorion a oedd yn cael trafferth cael cymorth gydag ymholiadau a phroblemau. Roedd arweinwyr wedi buddsoddi mewn cefnogaeth a datblygiad i staff, gyda chynlluniau credadwy i wella eu cymhwysedd a'u hyder.

4.2 Gwelsom ryngweithio cadarnhaol ar y cyfan rhwng y rhan fwyaf o'r staff a'r carcharorion, gan ddefnyddio enwau cyntaf a'r staff yn adnabod y dynion ar eu hunedau. Gallai'r rhan fwyaf o'r carcharorion enwi'r aelodau o staff y gallent siarad â nhw pe bai ganddynt broblem. Fodd bynnag, oherwydd eu bod yn treulio cymaint o amser dan glo, roedd hyn yn rhwystro perthnasoedd mwy effeithiol rhag datblygu, ac nid oedd staff bob amser yn mynd ati'n frwd i annog carcharorion i gymryd rhan yn y drefn a symud ymlaen yn eu dedfryd.

4.3 Nid oedd y cynllun gweithiwr allweddol (gweler yr Eirfa) yn gweithio'n effeithiol o hyd, nid oedd cysondeb o ran dyrannu gweithwyr allweddol, ni chynhaliwyd digon o sesiynau ac roedd yr ansawdd yn aml yn wael. Roedd gan arweinwyr gynlluniau i gyflwyno cynllun newydd a fyddai'n gwella cysondeb ar gyfer lleiafrif sylweddol o garcharorion sydd â'r anghenion mwyaf. Fodd bynnag, byddai'r rhan fwyaf o garcharorion yn cael sesiynau llai strwythuredig a fyddai'n debycach i archwiliadau lles, ac ni fyddai ganddynt swyddog wedi'i ddyrannu o hyd.

4.4 Roedd amrywiaeth o rolau gwaith cymheiriaid, ac roedd rhai yn arbennig o effeithiol, yn enwedig cynrychiolwyr lleihau trais a mentoriaid gofal iechyd a oedd yn staffio llinell gymorth hybu iechyd ar gyfer eu cymheiriaid. Yn ystod ein hymweliad blaenorol, roeddem wedi cydnabod gwaith da 'torwyr cadwyni' - cynrychiolwyr cymheiriaid a oedd yn helpu carcharorion eraill ar yr adeiniau gyda phroblemau bob dydd. Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod y gwasanaeth hwn wedi cael ei leihau a bod y rôl yn llai effeithiol; roedd hwn yn gyfle a gollwyd i'r carcharorion hyn gefnogi staff i ateb ymholiadau arferol.


## Bywyd bob dydd

Canlyniadau disgwyliedig: Mae carcharorion yn byw mewn amgylchedd glân a gweddus ac yn ymwybodol o reolau ac arferion y carchar. Darperir gwasanaethau sylfaenol hanfodol iddynt, ymgynghorir â hwy'n rheolaidd a gallant wneud cais am wasanaethau a chymorth ychwanegol. Mae'r prosesau cwyno ac unioni yn effeithlon ac yn deg.

### Amodau byw

4.5 Roedd amodau byw carcharorion yn dda ar y cyfan. Roedd y carchar yn lân ar y cyfan ac roedd yr ardaloedd y tu allan yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

4.6 Roedd y tri bloc tai wedi eu rhannu'n wyth adain lai, a oedd i gyd yn darparu llety o safon dderbyniol. Roedd yr adeiniau'n cynnwys dau landin, a oedd yn llachar, ac roedd gan lawer waith celf ar y waliau.



**Cyflwr yr adeiniau**

4.7 Roedd cawod ym mhob cell, ac roedd carcharorion yn gwerthfawrogi hynny'n fawr. Roedd celloedd dwbl yn fawr ac roedd gan y rhan fwyaf o ddynion y dodrefn yr oedd arnynt eu hangen. Roedd technoleg yn y gell yn cynnwys gliniadur unigol ar gyfer pob carcharor. Roedd hwn yn adnodd gwych a oedd yn caniatáu i garcharorion gyflwyno ceisiadau,

cwblhau bwydlenni ac archebion siop, a chael gafael ar wybodaeth am y carchar unrhyw bryd.

4.8 Cwynodd llawer o garcharorion am fynediad gwael at eitemau sylfaenol fel papur toiled a chynnyrch glanhau, a dywedodd swyddogion wrthym eu bod yn treulio llawer o amser yn chwilio am yr eitemau hyn. Roedd arweinwyr wedi cyflwyno dulliau rheoli newydd ar gyfer dosbarthu deunyddiau glanhau, ond roedd diffyg goruchwyliaeth gan reolwyr adain ac nid oedd y rhain yn gweithio'n effeithiol eto.

4.9 Roedd gan bob adain wasanaeth golchi dillad dan oruchwyliaeth gweithiwr adain. Roedd y peiriannau golchi a sychu yn cael eu defnyddio'n gyson ac yn torri yn aml. Roedd yr oedi cyn eu trwsio yn golygu nad oedd modd golchi dillad a dillad gwely pob carcharor bob wythnos. Yn ein harolwg, dim ond 39% o garcharorion ddywedodd y gallent gael dillad gwely glân bob wythnos, o'i gymharu â 58% yn yr arolygiad diwethaf.

4.10 Roedd arweinwyr yn cyflwyno'r rhaglen CRED (glân, adsefydlu, galluogi, gweddus), gyda charcharorion yn gweithio ochr yn ochr â staff cynnal a chadw i wneud gwaith atgyweirio ac adnewyddu. Roeddent yn hyderus y byddai hyn yn helpu i gynnal lefelau da o lanweithdra ac amodau priodol mewn celloedd.

4.11 Yn ein harolwg, dim ond 12% o garcharorion ddywedodd bod cloch galw eu cell fel arfer yn cael ei hateb o fewn pum munud, o'i gymharu â'r gyfradd gymharol o 29%. Yn ddiweddar, roedd arweinwyr wedi cyflwyno proses newydd o wella ymatebolrwydd a darparu mwy o graffu. Ni welsom unrhyw oedi yn ystod yr arolygiad.

### Gwasanaethau preswyl

4.12 Yn ein harolwg, dim ond 32% o garcharorion ddywedodd fod ansawdd y bwyd yn dda a dim ond 25% ddywedodd eu bod yn cael digon o fwyd yn y prydau, o'i gymharu â 58% a 41% yn y drefn honno yn ein hymweliad diwethaf. Dywedwyd wrthym fod cyfyngiadau cyllidebol a chynnydd mewn costau bwyd wedi effeithio ar ansawdd y bwyd a faint ohono a weinir.

4.13 Gallai carcharorion gael dau bryd poeth y dydd ac roedd digon o ddewis ar y bwydlenni ar gyfer y rhan fwyaf o ddietau. Roedd ansawdd y bwyd a oedd yn cael ei weini yn ystod yr arolygiad yn ddigonol, ond roedd maint y prydau, yn enwedig y pecynnau brecwast, yn fach i ddynion sy'n oedolion. Roedd opsiynau llai dymunol yn cael eu cynnig yn lle rhai bwydydd, ac roedd yr adeiniau'n gweini pethau ychydig yn wahanol i'w gilydd, a oedd yn arwain at rwystredigaeth ymysg carcharorion.

4.14 Yn ystod ein hymweliad, roedd goruchwyliaeth y staff ar y cownteri arlwyo'n annigonol ac yn golygu nad oedd rhai carcharorion yn cael digon o fwyd. Nid oedd digon o reolaeth dros faint y prydau ac nid oedd y trefniadau ar gyfer gweini bwyd halal bob amser yn cael eu

dilyn. Nid oedd carcharorion a oedd yn gweithio ar y cownteri arlwyo bob amser yn gwisgo'r dillad priodol.

4.15 Roedd gan yr unedau preswyl fyrddau bwyta y gellir eu plygu i alluogi'r carcharorion y fwyta gyda'i gilydd. Fodd bynnag, roedd staff yn agor y celloedd dim ond chwe charcharor ar y tro i gasglu eu pryd, a oedd yn fesur diogelwch anghymesur ac nid oedd yn gadael amser i garcharorion fwyta eu prydau gyda'i gilydd (gweler paragraff 3.43).

4.16 Roedd gan garcharorion ar yr holl unedau uwch rai cyfleusterau hunan-arlwyo a gallent goginio eu bwyd eu hunain, er bod y dewis cyfyngedig o fwyd ffres a oedd ar gael i'w brynu yn cyfyngu ar yr hyn y gallent ei wneud. Nid oedd gan garcharorion mewn unedau prif ffrwd fynediad at gyfleusterau coginio.

4.17 Roedd siop y carchar yn darparu amrywiaeth dda o gynnyrch, ar wahân i'r amrywiaeth gyfyngedig o fwyd ffres ar gyfer carcharorion uwch. Roedd cyflogau carchardai lleol yn gymharol isel, ac roedd carcharorion nad oeddent yn cael arian wedi ei hanfon atynt yn ei chael hi'n anodd fforddio prisiau'r siop.

### Ymgynghori â charcharorion, ceisiadau a gwneud iawn

4.18 Roedd yr arweinwyr wedi gwella'r trefniadau ymgynghori ers ein hymweliad diwethaf. Etholwyd cyngor y carcharorion yn ddemocrataidd ac roedd wedi bod yn rhedeg yn rheolaidd, ochr yn ochr â fforymau'r adeiniau. Roedd yn gadarnhaol gweld bod y fforymau hyn yn cynnwys trawstoriad o garcharorion o wahanol ddemograffeg. Roedd arweinwyr wrthi'n ceisio rhoi camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar waith yn gyflymach i sicrhau bod yr ymgynghoriad yn effeithiol, ond prin oedd y gwaith o hyrwyddo meysydd a oedd wedi gwella, heblaw drwy rannu cofnodion cyfarfodydd ar liniaduron yn y celloedd.

4.19 Oherwydd maint y boblogaeth, cyflwynwyd nifer fawr o geisiadau a chwynion. Yn ein harolwg, dim ond 37% o'r ymatebwyr, o'i gymharu â 50%, ddywedodd fod ceisiadau'n cael eu trin yn deg, a dim ond 50%, o'i gymharu â 61%, ddywedodd ei bod yn hawdd cwyno; yn ystod yr arolygiad dywedodd llawer o garcharorion nad oedd ganddynt hyder yn y gweithdrefnau.

4.20 Nid oedd ffurflenni cwyno bob amser ar gael ar yr adeiniau, ac ni ddaethom o hyd i rai Cymraeg o gwbl. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod rheolwyr a oedd yn ateb cwynion wedi siarad â'r carcharor dan sylw, roedd llawer o'r ymatebion yn annigonol ac yn hwyr. Nid oedd unrhyw sicrwydd ansawdd na dadansoddiad o gwynion i nodi'r themâu i helpu arweinwyr i fynd i'r afael â'r materion a godwyd. Roedd arweinwyr wedi cymryd camau'n ddiweddar i wella'r broses gwyno, ond roedd hi'n rhy gynnar i weld effaith hyn.

4.21 Gallai carcharorion gyflwyno ceisiadau'n electronig drwy eu gliniaduron yn y celloedd, a oedd yn ei gwneud yn hawdd iddynt gysylltu â phob adran. Dywedodd carcharorion fod staff yr adain yn eu cynghori i gyflwyno ceisiadau ar gyfer y rhan fwyaf o faterion yn hytrach na

cheisio eu helpu'n bersonol, a arweiniodd at nifer fawr o geisiadau yr oedd adrannau'n cael trafferth ymdopi â nhw. Gwelsom wendidau yn ansawdd a phrydlondeb yr ymatebion i geisiadau. Unwaith eto, nid oedd unrhyw sicrwydd ansawdd na dadansoddiad strategol o'r materion a godwyd.

4.22 Roedd carcharorion yn gallu cyfathrebu â'u cynrychiolwyr swyddogol a chyfreithiol drwy amrywiaeth o ymweliadau swyddogol, galwadau ffôn neu alwadau fideo. Roedd mynediad da at gyswllt fideo, gyda bythau ar gael ar gyfer y llysoedd lleol a man dynodedig ar gyfer yr heddlu.

## Triniaeth deg a chynhwysiant

Canlyniadau disgwyliedig: Mae dull clir o hyrwyddo cyfle cyfartal, dileu gwahaniaethu anghyfreithlon a meithrin cysylltiadau da. Mae anghenion penodol carcharorion sydd â nodweddion gwarchodedig penodol (gweler yr Eirfa), neu'r rheini a allai fod mewn perygl o wynebu gwahaniaethu neu o gael triniaeth annheg, yn cael eu cydnabod ac yn cael sylw. Mae carcharorion yn gallu ymarfer eu crefydd. Mae'r gaplaniaeth yn chwarae rhan lawn ym mywyd y carchar ac yn cyfrannu at ofal, cefnogaeth ac adsefydlu cyffredinol carcharorion.

4.23 Roedd gan y tîm cydraddoldeb lawer o adnoddau gydag uwch reolwr, swyddog amser llawn a dadansoddwr. Roedd gan bob grŵp gwarchodedig swyddog arweiniol penodol hefyd a oedd yn gyfrifol am sbarduno gwaith i ddiwallu anghenion carcharorion yn y grŵp hwnnw. Cafwyd sawl enghraifft o waith arloesol i sicrhau triniaeth deg, gan gynnwys dosbarth meistr coginio ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr gyda chogyddion o fwytai lleol a diwrnod digwyddiadau byd-eang ar gyfer carcharorion o dramor. Roedd llawer o ddigwyddiadau wedi cael eu cynnal i godi ymwybyddiaeth a rhoddwyd cefnogaeth dda i garcharorion mewn rhai grwpiau.

4.24 Roedd cyfarfod amrywiaeth a chynhwysiant misol yn denu tipyn o gynrychiolwyr carcharorion i fynychu. Roedd y trafodaethau'n bwrpasol ac adolygwyd amrywiaeth o ddata. Roedd ymdrechion wedi'u gwneud i ddeall a mynd i'r afael â rhai canlyniadau anghymesur. Er enghraifft, roedd arweinwyr wedi cymryd camau i wella tegwch wrth ddyrannu gwaith i garcharorion ethnig leiafrifol.

4.25 Er gwaethaf y mesurau diogelu strwythurol hyn, gwelsom dystiolaeth o hyd o angen heb ei ddiwallu ar draws y carchar. Er bod rhai arweinwyr grwpiau gwarchodedig yn rhagweithiol iawn, yn enwedig y rheini sy'n gyfrifol am garcharorion sy'n wladolion tramor, carcharorion LHDT a charcharorion o grwpiau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, nid oedd eraill yn canolbwyntio'n ddigonol ar wella canlyniadau i'r carcharorion roeddent yn eu cynrychioli.

4.26 Yn ein harolwg, roedd carcharorion anabl yn fwy negyddol am eu profiadau yn Berwyn, er bod y rheini sydd â'r anableddau mwyaf amlwg

a difrifol yn cael cefnogaeth weddol dda. Roedd chwe chell wedi cael eu haddasu ar gyfer carcharorion â symudedd isel ac roedd tua 40 o garcharorion wedi cael larymau personol ar gyfer argyfyngau. Roedd cynllun gofalwyr yn talu carcharorion i helpu carcharorion anabl gyda thasgau dyddiol sylfaenol, ond nid oeddent wedi cael hyfforddiant ffurfiol i wneud yn siŵr eu bod yn deall ffiniau a disgwyliadau'r rôl. Roedd gan tua 65 o garcharorion gynlluniau personol ar gyfer gadael mewn argyfwng, er nad oedd rhai yn cynnwys digon o fanylion ac roedd angen eu hadolygu.

4.27 Roedd gan arweinwyr lai o afael ar ddiwallu anghenion carcharorion ag anableddau llai amlwg, gan gynnwys awtistiaeth, ADHD ac anableddau dysgu, a gwelsom fod gormod o garcharorion o'r fath wedi'u cyfyngu i'w celloedd heb fawr ddim i'w wneud. Er bod rhai o dan ofal y tîm iechyd neu'n cael cymorth gan yr adran addysg, yn aml nid oedd gan swyddogion ddealltwriaeth ddigonol o sut i gefnogi eu hanghenion ar yr adeiniau.

4.28 Yn ddiweddar, roedd arweinwyr wedi adfer fforymau i drafod hil, ac roedd y rheolwr cydraddoldeb i'w weld ar y safle, yn gwrando ar garcharorion a oedd wedi profi agweddau gwahaniaethol.

4.29 Roedd 50 o wladolion tramor yn garcharorion, y rhan fwyaf ohonynt wedi'u lleoli ar yr un adain er mwyn gallu targedu cymorth yn well. Roedd swyddog arweiniol y grŵp hwn yn weithgar ac yn cael ei gefnogi gan ddau gefnogwr cymheiriaid a oedd yn wladolion tramor, a oedd rhyngddynt yn siarad nifer o ieithoedd. Roedd y tiwtor Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) hefyd yn gweithio'n agos gyda'r garfan hon. Roedd staff y carchar yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd dros y ffôn pan oedd angen (42 achlysur yn ystod y 12 mis blaenorol).

4.30 Roedd dros 200 o staff wedi cael hyfforddiant i'w helpu i ddeall ymddygiad carcharorion iau, gan gynnwys ymwybyddiaeth o aeddfedrwydd ac effeithiau tymor hir profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Er gwaethaf yr ymdrechion hyn i gynyddu ymwybyddiaeth o'u hanghenion, nid oedd arweinwyr yn darparu ymyriadau na systemau cefnogi digonol wedi'u targedu'n benodol at ddynion ifanc, nid oedd fforymau ymgynghori'n cael eu cynnal yn gyson ac nid oedd llawer o weithgareddau i ennyn eu diddordeb.

4.31 Yn fwy cadarnhaol, gallai carcharorion hŷn gael mynediad at sesiynau campfa a gweithgareddau grŵp wythnosol sy'n briodol i'w hoed, a grŵp cymdeithasol o'r enw 'Cameo' (dewch i gwrdd â'ch gilydd).

4.32 Roedd ffurflenni riportio digwyddiadau gwahaniaethu (DIRFs) wedi codi materion ynghylch hil a homoffobia. Cydnabu arweinwyr yr angen i fynd ymhellach i ddatblygu strategaeth fwy cadarn i fynd i'r afael ag agweddau ac ymddygiad hiliol a homoffobig.

4.33 Nid oedd digon o sylw i anghenion carcharorion oedd yn siarad Cymraeg iaith gyntaf. Nid oedd rhai darnau o wybodaeth bwysig wedi'u

cyfieithu, ac nid oedd yn hawdd i garcharorion enwi'r staff a oedd yn gallu siarad Cymraeg.

## Ffydd a chrefydd

4.34 Roedd rheolwr caplaniaid, pedwar caplan amser llawn a thri chaplan ymweld yn gweithio yn y gaplaniaeth, a oedd yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r prif grwpiau ffydd ac yn eu galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol. Tan yn ddiweddar, roedd swyddi gwag wedi bod ar gyfer swyddi Sikh a Mwslimaidd, a oedd wedi effeithio dros dro ar brofiad rhai carcharorion o'r crefyddau hyn. Roedd y gaplaniaeth hefyd yn darparu gofal bugeiliol da i garcharorion ac yn ymwelwyr rheolaidd ag adeiniau preswyl.

4.35 Roedd cyfleusterau'r gaplaniaeth yn dda iawn, gydag amrywiaeth o ystafelloedd ar gyfer addoli. Roedd y prif gapel wedi'i addurno'n dda ac yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau Anglicanaidd, Catholig a Bwdhaidd, a dodrefnwyd ail le o faint tebyg ar gyfer addoliad Mwslimaidd, Sikh a Hindŵaidd. Nod y rheolwr caplaniaid oedd creu mannau a rennir i wahanol grefyddau eu defnyddio.



**Capel**

4.36 Roedd ystafell gyfarfod yn cynnig dosbarthiadau astudiaethau crefyddol rheolaidd ac ymyriadau fel y rhaglen Sycamore Tree chwe wythnos a ddarparwyd gan Ymddiriedolaeth Prison Fellowship, gan addysgu carcharorion am ymwybyddiaeth o ddioddefwyr a chyfiawnder adferol. Cynhaliwyd y cwrs hwn yn aml drwy gydol y flwyddyn gyda chyfraddau cwblhau da. Roedd Ymddiriedolaeth Prison Fellowship hefyd yn darparu cynllun ysgrifennu llythyrau ar ôl pob gwasanaeth ar ddydd Sul a oedd yn cael ei gefnogi gan wirfoddolwyr o'r gymuned. Defnyddiwyd ystafell bwrpasol ychwanegol ar gyfer materion mwy sensitif, fel delio â phrofedigaeth neu fynd i angladdau cymunedol ar-lein.

## Iechyd, lles a gofal cymdeithasol

> Canlyniadau disgwyliedig: Mae cleifion yn derbyn gofal gan wasanaethau sy'n asesu ac yn diwallu eu hanghenion iechyd, gofal cymdeithasol a defnyddio sylweddau, ac sy'n hyrwyddo parhad gofal pan gânt eu rhyddhau. Mae safon y ddarpariaeth yn debyg i'r hyn y gallai cleifion ddisgwyl ei gael mewn mannau eraill yn y gymuned.

### Strategaeth, llywodraethu clinigol a phartneriaethau

4.37 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) oedd y prif ddarparwr iechyd a gofal cymdeithasol, ac roedd The Gables yn darparu gwasanaeth meddyg teulu.

4.38 Roedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu harwain yn dda ac yn ymateb i anghenion cleifion. Roedd gweithio mewn partneriaeth rhwng y darparwr a'r carchar yn gryfder clir, gyda'r ddau yn cydweithio i ddiwallu anghenion cleifion. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd bwrdd y bartneriaeth, gyda nifer yn bresennol, ac roedd camau gweithredu'n cael eu holrhain a'u monitro.

4.39 Cyhoeddwyd dadansoddiad newydd o anghenion iechyd yn ddiweddar ac roedd arweinwyr yn gweithio drwy ei argymhellion. Roedd y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn hyblyg yn ei hymateb i newidiadau yn nemograffeg carcharorion a dderbyniwyd i garchar Berwyn.

4.40 Roedd goruchwyliaeth dda iawn o wasanaethau clinigol. Roedd cyfres helaeth o gyfarfodydd llywodraethu clinigol lleol a rhanbarthol yn sicrhau bod gan arweinwyr ddata perfformiad cywir, a bod strwythurau llywodraethu'n cael eu defnyddio'n effeithiol i sicrhau bod gwasanaethau'n gwella'n barhaus.

4.41 Roedd y gofrestr risg leol yn nodi risgiau gweithredol, a oedd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd digwyddiadau clinigol yn cael eu hadolygu'n brydlon, a rhannwyd y gwersi a ddysgwyd yn effeithiol gyda staff. Roedd uwch arweinwyr BIPBC yn monitro digwyddiadau clinigol a ddosbarthwyd fel niwed cymedrol neu uwch, a oedd yn arfer da. Roedd y pennaeth gofal iechyd yn gyson wrth fonitro cynlluniau gweithredu marwolaeth yn y ddalfa, a defnyddiwyd archwiliadau clinigol yn effeithiol i sicrhau bod gwaith dilynol yn cael ei wneud mewn perthynas â'r camau gweithredu. Roedd gan yr holl wasanaethau gynllun gwella gwasanaeth cyfredol a oedd yn sail i'r ddarpariaeth.

4.42 Roedd staffio gofal iechyd yn dda ac yn well ar y cyfan nag yn yr arolygiad diwethaf, ar wahân i wasanaethau iechyd meddwl. Roedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant, goruchwyliaeth ac arfarniadau staff gorfodol yn gyson uwch na 90%, a oedd yn dda iawn. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau a'u gwerthfawrogi gan arweinwyr lleol a'r sefydliad. Roedd staff ac arweinwyr yn deall prosesau diogelu yn dda. Gwelsom weithlu medrus a chydwybodol yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod anghenion cleifion

yn cael eu diwallu. Roedd llawer o’r cleifion a’r staff carchar y buom yn siarad â nhw yn canmol y gwasanaethau iechyd.

4.43 Roedd system cwynion iechyd gyfrinachol ar waith, ac fe’u rheolwyd yn dda iawn. Roedd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar ateb cyflym wyneb yn wyneb lle bo hynny’n bosibl. Yn y cwynion a aeth drwy’r system ffurfiol, roedd yr ymatebion a samplwyd gennym yn dangos ymchwiliad trylwyr, ymddiheuriad os oedd angen, a llwybr uwchgyfeirio os nad oedd yr achwynydd yn fodlon o hyd.

4.44 Roedd y gwasanaethau iechyd yn parhau i gefnogi’r llinell gymorth werthfawr dros y ffôn, a oedd yn cael ei staffio dan oruchwyliaeth mentoriaid brwdfrydig iechyd a lles cymheiriaid. Roedd y llinell gymorth yn derbyn rhwng 2,000 a 2,500 o alwadau bob mis gan garcharorion.

4.45 Roedd yr ardaloedd clinigol yn lân, heb annibendod ac yn bodloni safonau atal heintiau yn gyffredinol. Roedd staff iechyd yn hawdd eu hadnabod, roeddent yn gwisgo lifrai ac yn cadw at safonau noeth o dan y penelin pan oeddent mewn cysylltiad â chleifion.

## Hybu iechyd a lles

4.46 Roedd dull gweithredu ar draws y carchar i hybu iechyd yn cynnwys diwrnod hybu iechyd blynyddol ar y cyd yn y gampfa. Roedd cynllun cyfredol ar gyfer achosion o glefydau a oedd yn cynnwys canllawiau clir, templedi a manylion cyswllt. Roedd ‘cadw’n iach’ yn llinyn i’w weld drwy’r carchar, gan gynnwys hyrwyddo bwyta’n dda a chadw’n heini gyda chefnogaeth y dietegydd a’r gampfa. Roedd aelod o staff a oedd â rôl iechyd y cyhoedd benodol yn y tîm iechyd yn goruchwylio’r gwaith o hybu iechyd ac yn llywio cynlluniau blynyddol.

4.47 Roedd gliniaduron carcharorion yn rhoi mynediad iddynt at amrywiaeth o wybodaeth iechyd o arbenigeddau unigol. Er enghraifft, roedd y ffisiotherapydd wedi darparu rhywfaint o ddeunydd defnyddiol er mwyn gwella ar ôl anafiadau neu anhwylderau cyhyrysgerbydol sylfaenol.

4.48 Roedd ystod o brofion sgrinio a brechiadau’n cynnwys micro-ddileu hepatitis. Roedd profion smotyn gwaed sych wedi’u gwreiddio’n dda gyda gwaith dilynol ar ôl tri mis. Roedd y gwasanaethau iechyd rhywiol cymunedol yn darparu sesiwn wythnosol. Roedd uned lles yn y prif garchar yn darparu lle diogel i garcharorion yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt.

## Gwasanaethau gofal sylfaenol a chleifion mewnol

4.49 Roedd tîm gofal sylfaenol dan arweiniad da yn darparu ystod eang ac ymatebol o wasanaethau, gan gynnwys tîm therapïau proffesiynol perthynol i iechyd cynhwysfawr ac estynedig. Roedd amseroedd aros wedi gwella ers ein harolygiad diwethaf.

4.50 Roedd nyrs gymwysedig yn sgrinio newydd-ddyfodiaid ar ôl iddynt gyrraedd y dderbynfa. Roedd technegydd fferyllfa yn bresennol yn y dderbynfa i gysoni meddyginiaethau tan 6pm, ac roedd meddyg teulu’n gweithio o bell i adolygu’r nodiadau ac i fod wrth law i roi unrhyw

bresgripsiynau dros nos. Roedd pwysau yn y dderbynfa wedi golygu bod yn rhaid adleoli nyrs gofal sylfaenol a thechnegydd fferyllol ychwanegol i'r maes hwn, a oedd yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau iechyd mewn mannau eraill.

4.51 Roedd y tair nyrs practis bellach yn gwneud gwaith sgrinio eilaidd ar gyfer newydd-ddyfodiaid; roeddent yn cael hyfforddiant gweithredol i reoli cleifion â chyflyrau cymhleth a hirdymor, a oedd yn rhan o'r cynllun gwella gofal sylfaenol. Er nad oedd pob claf ag anghenion gofal cymhleth wedi cael asesiad llawn na chynllun gofal personol, roedd y gwaith hwn yn rhan o'r cynllun gwella gofal sylfaenol.

4.52 Gallai carcharorion ofyn am apwyntiadau iechyd drwy eu gliniaduron neu'r ciosg electronig ar eu hadain. Gallent addasu a chanslo apwyntiadau drwy ffonio gweithwyr cymheiriaid dan oruchwyliaeth ar y llinell gymorth (gweler paragraff 4.44), y gellid ei defnyddio hefyd ar gyfer ymholiadau ac i ofyn am ragor o wybodaeth.

4.53 Roedd y 22 sesiwn meddyg teulu a gynhaliwyd bob wythnos yn blaenoriaethu newydd-ddyfodiaid, a oedd yn golygu bod yn rhaid aildrefnu rhai apwyntiadau rheolaidd pan oedd nifer y derbyniadau'n uchel. Yn ein sampl, gwelsom fod y rhan fwyaf o apwyntiadau rheolaidd yn cael eu gweld o fewn pythefnos ac achosion brys o fewn ychydig ddyddiau. Fodd bynnag, roedd rhai amseroedd aros anghyfartal ar gyfer y rheini a oedd wedi trefnu i weld meddyg teulu penodol; gallent aros am hyd at chwe wythnos ac ni roddwyd yr opsiwn i bob un ohonynt newid meddyg.

4.54 Nid oedd pob cofnod clinigol yn cyrraedd y safon y byddem yn ei disgwyl. Nid oedd y cofnodion yn disgrifio'r ymyriadau a'r asesiad yn ddigon manwl. Roedd diffyg hyfforddiant staff iechyd a threfniadau aneffeithlon y templedi clinigol yn gwaethygu hyn.

4.55 Roedd offer ymateb i argyfwng ar gael ar draws y carchar, ac roedd yr holl glinigwyr iechyd wedi'u hyfforddi i gynnal bywyd ac roeddent ar y safle 24 awr y dydd, bob dydd. Dywedodd staff iechyd wrthym nad oedd oedi cyn galw am ambiwlans, ac roedd yr offer dadebru yn cael ei archwilio'n rheolaidd. Roedd rhai o'r diffibrilwyr a oedd yn eiddo i'r carchar ac a oedd wedi'u gwasgaru yn swyddfeydd yr adeiniau yn arbennig o fudr, ac roedd risgiau ynghlwm wrth hynny. Nid oedd pob swyddog wedi cael yr hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol diweddaraf.

4.56 Roedd goruchwyliaeth dda o hebryngwyr ysbytai, ac roedd y gwasanaethau iechyd yn rheoli hynny'n dda. Roedd yr wyth hebryngwr a gomisiynwyd bob dydd yn ddigonol i ddiwallu anghenion y boblogaeth. Collwyd nifer o apwyntiadau oherwydd darpariaeth tacsi annibynadwy, ac nid oedd y carchar wedi datrys hyn.

4.57 Anaml iawn yr oedd angen gofal lliniarol. Roedd y rhai yr oedd angen gofal lliniarol a diwedd oes arnynt yn cael eu rheoli gan nyrs benodedig yn y gymuned a thrwy reoli achosion cymhleth yn y carchar.

## Gofal cymdeithasol

4.58 Arweiniwyd y ddarpariaeth gofal cymdeithasol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Roedd cytundeb rhannu gwybodaeth cynhwysfawr rhwng y cyngor a'r carchar, ac roedd y memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn aros i gael ei gymeradwyo'n derfynol.

4.59 Roedd gan y tîm gofal iechyd a'r carchar lwybrau atgyfeirio sefydledig a hawdd eu deall at gymorth gofal cymdeithasol. Roedd tîm o weithwyr cymdeithasol ac aseswyr yn gwneud yn siŵr bod y broses atgyfeirio'n cael ei goruchwylio'n gadarn a bod asesiadau'n cael eu cwblhau'n brydlon. Roedd y gofod swyddfa ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yn annigonol ac nid oedd yn caniatáu iddynt gael mynediad at gofnodion carchar electronig.

4.60 Roedd dau garcharor yn derbyn pecyn gofal ffurfiol. Roedd cofnodion yn dangos bod eu cynlluniau gofal yn gynhwysfawr a bod y gofal a ddarperir o safon dda. Dywedodd un carcharor wrthym fod y staff gofal cymdeithasol yn rhagorol.

4.61 Dywedodd staff y tîm therapïau wrthym fod unrhyw gymhorthion neu addasiadau angenrheidiol ar gyfer carcharorion yn cael eu darparu'n brydlon.

4.62 Roedd gan y blociau tai drefniadau anffurfiol o hyd gyda charcharorion sy'n ofalwyr a oedd yn helpu gyda gofal nad oedd yn ofal personol (gweler paragraff 4.26). Fel yn yr arolygiad diwethaf, nid oedd y gofalwyr yn cael unrhyw hyfforddiant na goruchwyliaeth o hyd, a oedd yn golygu bod y prosesau ar gyfer goruchwylio eu gwaith yn dal yn wael ac yn creu risgiau diangen.

## Iechyd meddwl

4.63 Roedd problemau recriwtio cronig gyda nyrsys iechyd meddwl cofrestredig yn golygu bod rhai bylchau yn y gwasanaeth a ddarperir. Roedd hyn yn cael ei wrthbwyso rhywfaint drwy ddefnyddio nyrsys asiantaeth rheolaidd, ac roedd staff gwybodus a medrus yn gweithio'n galed i sicrhau bod cleifion yn cael gofal.

4.64 Roedd y gwasanaeth prysur yn darparu model gofal fesul cam yn unol ag arferion gorau. Cafodd y tîm dros 200 o atgyfeiriadau bob mis a chynhaliwyd asesiadau o fewn yr amserlenni disgwyliedig. Roedd gwaith amlddisgyblaethol yn amlwg ac yn seiliedig ar gyfarfodydd adolygu amlddisgyblaethol wythnosol i sicrhau bod cleifion yn cael y gofal a'r driniaeth fwyaf priodol. Roedd y tîm yn cael ei arwain yn dda gydag arweinwyr yn gwneud defnydd da o ddata ac adborth cleifion i sbarduno gwelliant. Rhoddodd y tîm fewnbwn gwerthfawr i gyfarfodydd diogelwch y carchar.

4.65 Roedd staff seicolegol yn darparu amrywiaeth o therapïau unigol, ac roedd penodi uwch seicolegydd yn ddiweddar yn golygu y byddai therapïau pellach ar gael hefyd. Roedd y tîm yn darparu cyfres werthfawr o grwpiau dan arweiniad staff a chymheiriaid, er bod cleifion

yn aros yn rhy hir i gael mynediad atynt - roedd tua 150 o gleifion yn aros yn ystod ein hymweliad. Effeithiwyd ymhellach ar yr amseroedd aros gan mai dim ond un ystafell grŵp y gallai'r tîm iechyd meddwl ei defnyddio yn y carchar.

4.66 Roedd y staff iechyd meddwl yn mynychu'r holl adolygiadau ACCT cychwynnol ac roedd ganddynt bresenoldeb da yn yr uned wahanu. Roedd llawer o staff y carchar y buom yn siarad â nhw yn gwerthfawrogi eu mewnbwn, ond roedd rhai – yn enwedig ar uned Menai lle'r oedd mwy o angen iechyd meddwl – yn teimlo y byddent yn elwa o hyfforddiant, ac nid oedd y tîm yn darparu hynny.

4.67 Roedd y ddarpariaeth seiciatrig wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf. Roedd cleifion yr oedd angen adolygiad seiciatrig arnynt yn cael eu gweld yn brydlon. Roedd goruchwyliaeth dda o drefniadau monitro iechyd corfforol ar gyfer cleifion iechyd meddwl. Roedd y nyrs anabledd dysgu yn gweithio drwy ôl-groniad bach o asesiadau iechyd corfforol a sgrinio ar gyfer cleifion ag anableddau dysgu.

4.68 Roedd safon y prosesau cadw cofnodion electronig yn dda, ac roedd gan y nodiadau cleifion yr edrychwyd arnynt gynlluniau gofal ac asesiadau risg. Roedd arweinwyr yn archwilio dogfennau'n fisol i roi sicrwydd.

4.69 Roedd aelod arweiniol o staff yn darparu gofal a thriniaeth dda i gleifion â phroblemau iechyd meddwl a oedd hefyd ag anghenion camddefnyddio sylweddau. Roedd hyn yn sicrhau bod cleifion â'r ddau angen yn cael eu rheoli drwy'r llwybr mwyaf effeithiol, ac yn adlewyrchu darpariaeth gymunedol leol, a oedd yn golygu bod y trefniadau rhyddhau yn fwy di-dor.

4.70 Roedd cleifion yn parhau i aros yn rhy hir o lawer cyn cael eu trosglwyddo i wely iechyd meddwl diogel o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Dim ond dau o'r 14 trosglwyddiad yn y 12 mis diwethaf oedd wedi digwydd o fewn yr amserlen 28 diwrnod, a chymerodd yr hiraf 176 diwrnod, a oedd yn annerbyniol. Roedd wyth claf arall wedi cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ar ôl cael eu rhyddhau wrth y giât.

**Cymorth a thriniaeth ar gyfer carcharorion sy'n gaeth i sylweddau a'r rheini sy'n camddefnyddio sylweddau**

4.71 Roedd dogfen strategaeth cyffuriau gyfredol yn nodi trefniadau gweithio ar y cyd a'r llwybr adfer, er nad oedd yn cynnwys cynllun gweithredu digon manwl ar gyfer lleihau'r cyflenwad a'r galw. Gwahoddwyd pob carcharor a ganfuwyd dan ddylanwad sylweddau anghyfreithlon i fynychu grŵp lleihau niwed yr un wythnos.

4.72 Roedd angen cryfhau'r oruchwyliaeth a'r sicrwydd ansawdd gan reolwyr gwasanaeth a rheolwyr canol, gan nad oedd y canlyniadau na'r rhai a atgyfeiriwyd at y gwasanaeth bob amser yn glir o'r cofnodion clinigol na'r adroddiadau rheoli.

4.73 Roedd presgripsiynu clinigol yn cael ei ddarparu gan feddygon teulu profiadol ar gyfer y 250 a mwy o gleifion ar therapi amnewid opioidau. Roedd grŵp o nyrsys camddefnyddio sylweddau yn goruchwylio’r llwyth achosion clinigol. Roedd y presgripsiynu’n cyd-fynd â safonau cenedlaethol, ac roedd carcharorion a oedd yn cyrraedd ar bwprenorffin y gellir ei chwistrellu (opioid synthetig) wedi cynnal hyn. Roedd newydd-ddyfodiaid yn cael profion wrin am gyffuriau, ond roedd potensial y byddai’r profion wrin dilynol yn cael eu hosgoi, a oedd yn golygu y gellid ymyrryd ag wrin. Roedd pob claf yn cael adolygiad pum diwrnod ac adolygiad 13 wythnos ar y cyd yn unol â’r safonau disgwyliedig. Roedd y presgripsiynwyr yn dogfennu penderfyniadau yn y prif gofnodion iechyd, ac roedd y nyrs yn eu cyfuno â’r cynlluniau gofal clinigol.

4.74 Roedd newydd-ddyfodiaid a oedd yn glinigol ansefydlog yn cael eu monitro’n effeithiol ar yr adain gynefino. Dangosodd cofnodion clinigol arsylwadau, asesiadau diddyfnu a phrofion wrin rheolaidd.

4.75 Roedd y gwasanaeth seicogymdeithasol yn blaenoriaethu cynnal asesiad cychwynnol o’r rhai a oedd yn cyrraedd o dan gyfundrefnau presgripsiynu clinigol, a oedd yn cynnwys addysg lleihau niwed. Roedd swyddi gwag diweddar yn golygu bod llai o waith grŵp a bod llwythi achosion yn cael eu rheoli am i lawr, gan arwain at niferoedd uwch o gleifion fesul gweithiwr. Dyrannwyd gweithiwr ar ddyletswydd bob dydd i dderbyn atgyfeiriadau newydd. Roedd unrhyw ymyriadau gofal ar unwaith, fel cysylltiad â llyfrau gwaith cymorth gan gymheiriaid a rhoi pobl ar restrau aros, yn cael eu gwneud ar unwaith.

4.76 Pan oedd pob aelod o staff yn bresennol, roedd y tîm yn ei chael hi’n anodd gwneud yr holl waith a oedd angen oherwydd diffyg ystafelloedd priodol. Roedd chwe ‘hyrwyddwr adfer’ yn rhan allweddol o’r gwasanaeth, gan ddarparu cymorth gan gymheiriaid i bawb sy’n cyrraedd o’r newydd a llawer o’r carcharorion a oedd yn ôl ac ymlaen ar y llwyth achosion.

4.77 Roedd gweithwyr achos yn cefnogi tua 15% o’r boblogaeth, drwy asesiadau, gwaith un-i-un, hunangymorth dan arweiniad, ymyriadau byr a gwaith grŵp. Roedd gan bob gweithiwr achos lwyth achosion o 60 a mwy, ond nid oedd gan bob claf gynllun gofal cynhwysfawr, ac nid oedd pob cynllun yn nodi naratif dilynol i gofnodi ei fod wedi cael ei roi ar waith.

4.78 Nodwyd mai Ceiriog A Uchaf oedd yr adain byw heb sylweddau. Nid oedd unrhyw gymhellion i garcharorion fod ar yr adain, ac roedd yn dal i dderbyn y rheini a oedd yn cymryd meddyginiaeth tawelu ac opioidau. Roedd profion cyffuriau gwirfoddol ar waith.

4.79 Gwnaed atgyfeiriadau cymunedol ar gyfer carcharorion cyn eu rhyddhau, a rhoddwyd cyngor a hyfforddiant lleihau niwed iddynt a chyflenwad o naloxone (chwistrell trwyn i atal gorddos) lle bo hynny’n briodol. Roedd mynediad at bwprenorffin y gellir ei chwistrellu wedi’i ddatblygu’n dda yn nhimau cyffuriau cymunedol Cymru, ond roedd nifer y carcharorion a ryddhawyd ar hyn yn dal yn isel.

## Optimeiddio meddyginiaethau a gwasanaethau fferyllol

4.80 Darparwyd meddyginiaethau gan fferyllfa ar y safle. Roedd fferyllwyr yn sgrinio pob presgripsiwn yn glinigol a gallent ymyrryd os oedd angen. Dywedodd staff fferylliaeth wrthym eu bod yn teimlo na allant ddylanwadu ar bolisi ac ymddygiad presgripsiynu yn y carchar, ac roedd angen mynd i'r afael â hyn. Roedd y fferyllwyr yn cynnal clinigau i helpu cleifion â chyflyrau hirdymor i reoli eu meddyginiaethau, a gallai cleifion ofyn am apwyntiad drwy ddefnyddio ap.

4.81 Rhoddwyd oddeutu 60% o feddyginiaethau 'mewn meddiant', a oedd yn isel o'i gymharu â charchardai tebyg. Cwblhawyd asesiadau risg ar gyfer pob claf, ond nid oedd y polisi'n diffinio pa mor aml y dylid adolygu asesiadau risg mewn meddiant fel mater o drefn. Yn y cofnodion a samplwyd gennym, roedd meddygon teulu yn adolygu asesiadau risg bob chwe mis fwy neu lai. Nid oedd staff a oedd yn rhoi meddyginiaethau yn gwybod sut i gael gafael ar asesiad risg diweddaraf claf wrth roi meddyginiaeth. Cyflenwyd meddyginiaethau mewn meddiant fel eitemau i gleifion a enwir, wedi'u labelu'n briodol ac yn cynnwys llwybr archwilio rhoi cyffuriau ar bresgripsiwn. Roedd gan gleifion gyfleusterau yn eu celloedd i storio meddyginiaethau'n ddiogel.

4.82 Rhoddwyd meddyginiaethau nad oeddent 'mewn meddiant' gan dechnegwyr fferyllol a nyrsys ddwywaith y dydd am oddeutu 7.30am a 4.30pm. Gellid gwneud trefniadau i roi meddyginiaethau'n amlach pe bai angen. Gwelsom reolaeth wael gan swyddogion carchardai ar garcharorion a oedd yn aros wrth ymyl yr hatsh rhoi meddyginiaeth, a oedd yn cynyddu'r risg o fwlio a dargyfeirio meddyginiaethau.

4.83 Rhoddwyd meddyginiaethau o becynnau wedi'u labelu ag enw'r claf arnynt ond nid oedd hynny'n cynnwys gwybodaeth am ddosau. Roedd y staff yn defnyddio'r wybodaeth ar SystmOne (system TG glinigol) i benderfynu pa ddos i'w roi. Roedd hyn yn golygu bod y meddyginiaethau hyn, gan gynnwys cyffuriau a reolir, yn cael eu rhoi o'r stoc, ac nid oedd hynny'n unol â'r canllawiau cyfredol.

4.84 Roedd meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel mewn ystafelloedd triniaeth, ond nid oedd systemau cadarn i gysoni'r rhai a oedd yn cael eu cadw yno. Roedd tystiolaeth bod meddyginiaethau wedi cronni ar gyfer rhai cleifion nad oeddent wedi eu casglu, ond bod rhagor o feddyginiaeth wedi cael ei harchebu a'i darparu'n awtomatig. Hefyd, nid oedd system i staff roi gwybod pan na fyddai pobl yn casglu eu meddyginiaethau dro ar ôl tro, ac roedd hyn yn arfer gwael.

4.85 Roedd gan staff fynediad at feddyginiaethau brys a meddyginiaethau dros y cownter mewn loceri meddyginiaethau mynediad biometrig awtomataidd yn ystafelloedd triniaeth y nyrsys ar bob adain ac yn yr adran gofal iechyd. Hysbyswyd staff y fferyllfa pan symudwyd eitem o'r loceri at ddibenion ailstocio, ond nid oedd proses ar gyfer archwilio i bwy y rhoddwyd y meddyginiaethau. Roedd y polisïau i roi paracetamol ac ibuprofen i gleifion heb bresgripsiynau yn nodi mai dim ond nyrsys allai wneud hyn, gan gyfyngu ar eu defnydd mewn rhai amgylchiadau.

4.86 Ymdriniwyd yn briodol â gwallau, damweiniau a fu bron â digwydd a rhybuddion cyffuriau. Roedd tymheredd oergelloedd a oedd yn dal meddyginiaethau yn cael ei fonitro'n electronig ar draws y carchar cyfan, a rhoddwyd gwybod i staff y fferyllfa os oedd y tu allan i'r ystod briodol. Roedd amrywiaeth lawn o weithdrefnau a pholisïau gweithredu safonol, a system i gofnodi bod aelodau'r tîm fferylliaeth wedi eu darllen a'u deall.

4.87 Roedd y fferyllfa'n rheoli parhad gofal cleifion a oedd yn gadael y carchar yn dda, gan gynnwys rhannu gwybodaeth â'u meddyg teulu er mwyn helpu i atal oedi i'w triniaeth. Roedd y fferyllfa hefyd wedi cynnal cynllun peilot i gofrestru carcharorion ymlaen llaw gyda meddyg teulu cymunedol os oeddent yn cael eu rhyddhau i amgylchedd gofal wedi'i reoli i'w helpu i gael gafael ar feddyginiaethau ar bresgripsiwn. Roedd y dulliau hyn weithiau'n anoddach eu rheoli ar gyfer carcharorion a oedd yn cael eu rhyddhau i Loegr, lle'r oedd systemau'r GIG (NHS) yn wahanol i'r rhai yng Nghymru.

## Gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg

4.88 Roedd gwasanaethau deintyddol cymunedol Gogledd Cymru yn darparu gwasanaeth deintyddol dan arweiniad da yn unol â safonau cymunedol lleol gydag 16 sesiwn yr wythnos, a fydd yn cynyddu i 17 cyn bo hir. Roedd tri chwarter y cyswllt yn ofal brys ac roedd argyfyngau'n aml yn cael eu gweld y diwrnod canlynol. Gwelsom hefyd enghreifftiau clir iawn o archwiliadau rheolaidd, siartiau, darparu dannedd gosod a gofal deintyddol adferol. Roedd y cyfraddau aros am ofal rheolaidd yn hir, ychydig dros chwe mis, ond roeddent wedi gwella ers ein harolygiad diwethaf, ac roedd triniaethau ar ôl dechrau arnynt yn cael eu gwneud yn brydlon. Cynigiwyd cyngor ac ymyriadau iechyd y geg yn y ddeintyddfa ac roedd taflenni ar gael ar gais.

4.89 Roedd y ddwy ddeintyddfa'n rhannu ystafell ddihalogi. Roedd y ddwy ddeintyddfa'n lân ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, ac roedd logiau gwasanaeth ar gael yn ogystal â manylion hyfforddi a chofrestru staff. Roedd gwir angen system oeri ar y ddeintyddfa er mwyn atal y gwasanaeth rhag cau oherwydd gwres yr haf, fel y gwelwyd yn flaenorol. Rhoddwyd sicrwydd i ni fod hyn ar y gweill cyn bod disgwyl i'r tywydd gynhesu.

# Section 5 Gweithgarwch pwrpasol

**Mae carcharorion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.**

## Amser allan o'r gell

Canlyniadau disgwyliedig: Mae pob carcharor yn cael digon o amser y tu allan i'r gell (gweler yr Eirfa) ac yn cael ei annog i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chymdeithasol, sy'n cefnogi ei les ac yn hyrwyddo adsefydlu effeithiol.

5.1 Roedd amser allan o'r gell ar gyfer carcharorion yn debyg i'n harolygiad diwethaf ac nid yw'n ddigon da o hyd ar gyfer carchar categori C yn bennaf. Roedd tua 678 o'r boblogaeth o 1,937 o garcharorion (35%) mewn addysg, sgiliau a gwaith amser llawn ac roeddent allan o'r gell am oddeutu naw awr y dydd. Roedd y 525 o garcharorion (27%) mewn rolau rhan-amser yn treulio rhwng chwech a saith awr allan o'u cell. Roedd 25% o garcharorion yn ddi-waith ac wedi'u cloi yn eu celloedd heb fawr i'w wneud am 22 awr y dydd, sy'n ganran uchel iawn.

5.2 Wrth wirio'r gofrestr ar hap, canfuwyd bod tua chwarter y carcharorion dan glo yn eu celloedd yn ystod y diwrnod gwaith craidd. Roedd amser allan o'r gell yn arbennig o wael i'r holl garcharorion ar ddydd Gwener ac ar y penwythnos.

5.3 Roedd gan garcharorion fynediad da at ymarfer corff yn yr awyr agored, gyda rhywfaint o offer a meinciau ar yr iardiau a oedd yn gwneud yr amgylchedd yn fwy dymunol. Fodd bynnag, prin oedd yr offer cymdeithasu ar yr adeiniau a dim ond bwrdd pŵl oedd gan y rhan fwyaf ohonynt.

5.4 Gallai carcharorion gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cyfoethogi y tu allan i addysg ffurfiol, sgiliau a gwaith, ac roedd arweinwyr yn bwriadu ymestyn y cynnig hwn ymhellach.

5.5 Yn ein harolwg, dim ond 20% o garcharorion ddywedodd eu bod yn gallu ymweld â'r llyfrgell neu fenthyg deunyddiau o leiaf unwaith yr wythnos, a oedd yn isel iawn. Dim ond y lleiafrif o garcharorion mewn addysg a allai ymweld â'r llyfrgell i bori am lyfrau; roedd yn rhaid i'r gweddill archebu deunydd darllen i'w ddanfon i'w celloedd. Roedd rhywfaint o ddeunydd darllen a phodlediadau ar gael drwy liniaduron carcharorion yn eu celloedd.

5.6 I'r rheini a oedd yn gallu mynd i'r llyfrgell, roedd yn cynnig amgylchedd dymunol, croesawgar a threfnus, ac roedd yn cael ei redeg gan ddau lyfrgellydd a oedd yn cael eu cefnogi gan ddau weithiwr cymheiriaid a oedd yn garcharorion. Roedd amrywiaeth eang o lyfrau ar gael, gan

gynnwys testunau hawdd eu darllen ac amrywiaeth o ffuglen, ond nid oedd digon o lyfrau mewn ieithoedd tramor.

5.7 Roedd y llyfrgell yn cynnal tri chlwb darllen a grŵp drama bob wythnos, gyda rhwng dau ac wyth o garcharorion yn bresennol ar y tro. Roedd dau neu dri o garcharorion yr wythnos hefyd yn mynd i'r llyfrgell i gymryd rhan mewn sesiwn Tadau Llyfrau Stori (sy'n eu galluogi i recordio stori i'w plant).

5.8 Roedd y cyfleusterau ar gyfer addysg gorfforol yn dda iawn. Roedd amrywiaeth eang o offer ar draws tair ardal wahanol, cae bob tywydd yn yr awyr agored wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, a neuadd chwaraeon fawr dan do. Roedd gan y gampfa dîm brwdfrydig a oedd yn darparu amrywiaeth o weithgareddau priodol.





**Ystafell bwysau (chwith uchaf), cyfleuster chwaraeon dan do (dde uchaf) a chwaraeon tîm**

5.9 Roedd yr amserlen wedi'i chynllunio'n dda. Gallai carcharorion gael o leiaf ddwy sesiwn yr wythnos, ac roedd dosbarthiadau arbenigol ar gyfer grwpiau penodol. Gallai carcharorion uwch fynd i hyd at chwe

gweithgaredd ffitrwydd gwahanol yr wythnos, a oedd yn arbennig o dda.

5.10 Roedd yr adran Addysg Gorfforol yn cynnig cymwysterau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ochr yn ochr ag amrywiaeth o weithgareddau ffitrwydd, fel ‘CrossFit’ a ‘Park Run’. Roedd y chwaraeon a gynigiwyd yn cynnwys rygbi, criced, badminton a phêl-bicl, gan annog amrywiaeth eang o garcharorion i gymryd rhan.

## Gweithgareddau addysg, sgiliau a gwaith

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Cynhelir y rhan hon o'r arolygiad gan arolygwyr Estyn, gan ddefnyddio fframwaith arolygu cyffredin Estyn. Mae hyn yn sicrhau bod carchardai'n cael eu dal yn atebol i'r un safon perfformiad â cholegau addysg bellach yn y gymuned.

> Canlyniadau disgwyliedig: Disgwylir i bob carcharor gymryd rhan mewn gweithgareddau addysg, sgiliau neu waith sy'n cynyddu ei gyflogadwyedd ar ôl cael ei ryddhau a chaiff ei alluogi i wneud hynny.  Mae digon o addysg, sgiliau a mannau gwaith addas i ddiwallu anghenion y boblogaeth ac mae'r ddarpariaeth o safon dda.

5.11 Gwnaeth Estyn yr asesiadau canlynol am y ddarpariaeth dysgu, sgiliau a gwaith:

Nid oedd y canlyniadau i garcharorion yn ddigon da.

### Addysgu a dysgu

5.12 Roedd gan y rhan fwyaf o'r staff ac ymarferwyr addysgu y cymwysterau priodol. Roedd ganddynt wybodaeth bynciol, dechnegol a galwedigaethol gadarn, a'r sgiliau a'r profiad a oedd yn berthnasol i'w rolau. Roedd y rhan fwyaf o athrawon ac ymarferwyr yn defnyddio cynlluniau gwaith buddiol i gynllunio dysgu, gan ddefnyddio cynlluniau dysgu unigol i bersonoli'r ddarpariaeth. Roedd y rhan fwyaf o athrawon ac ymarferwyr yn rhoi cyfarwyddiadau ac esboniadau clir, ac yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i ennyn diddordeb y dysgwyr a'u hysgogi. O ganlyniad, pan oedd dysgwyr yn mynychu sesiynau, roedd llawer yn gwneud cynnydd addas o leiaf yn eu pwnc, gan ddysgu neu ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd gwerthfawr.

5.13 Roedd y rhan fwyaf o staff yn dangos perthynas waith gref â dysgwyr, roeddent yn deall eu hanghenion ac roeddent yn creu amgylcheddau gwaith pwrpasol. Roeddent yn cyfleu disgwyliadau clir o ran dysgu, gwaith ac ymddygiad, er enghraifft, atgoffa dysgwyr am y rheolau ynghylch defnyddio iaith yn briodol. O ganlyniad, roedd bron pob dysgwr yn y sesiynau yn parchu eu cyfoedion a'u staff. Roedd y rhan fwyaf yn cyfrannu'n dda ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol mewn sesiynau addysg, hyfforddiant neu waith. Er bod athrawon yn defnyddio mentoriaid cymheiriaid yn effeithiol lle'r oeddent ar gael, nid oedd digon wedi'u penodi i gefnogi dysgu mewn addysg a hyfforddiant.

5.14 Roedd llawer o ddysgwyr yn y sesiynau yn gwerthfawrogi'r cyfle i fanteisio ar y dysgu neu'r gwaith a ddarparwyd. Roedd llawer o

athrawon yn cynnig cymorth defnyddiol i ddysgwyr gofio ac adeiladu ar ddysgu blaenorol. Roedd staff yn asesu ac yn olrhain cynnydd dysgwyr yn ofalus ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i gynllunio'r camau nesaf. Yn yr un modd, roedd llawer o ddysgwyr wir yn ystyried yr adborth a gawsant i wella ansawdd eu gwaith. Yn yr enghreifftiau mwyaf llwyddiannus, roedd staff yn defnyddio gwybodaeth o gynlluniau dysgu i addasu'r addysgu, er enghraifft, cael gwared ar rwystrau i ddysgwyr â dyslecsia neu gyflyrau niwrowahanol eraill.

5.15 Yn gyffredinol, roedd llawer o ddysgwyr a oedd yn mynychu'r sesiynau addysg neu hyfforddiant yn llwyddo i ennill achrediadau gwerthfawr. Nid oedd tua chwarter yn gwneud cynnydd digonol, yn bennaf oherwydd presenoldeb gwael. Roedd dysgwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn cyflawni gystal â'u cyfoedion gwyn. Fodd bynnag, nid oedd y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a nodwyd yn cyflawni gystal. Nid oedd tua thraean o'r dysgwyr yn gadarnhaol am eu profiadau dysgu. Roedd hyn oherwydd eu bod wedi cael eu dyrannu i gyrsiau nad oeddent wedi mynegi diddordeb ynddynt neu nad oeddent yn adeiladu ar eu dysgu blaenorol. Weithiau, roeddent yn teimlo eu bod yn ailadrodd cyrsiau yr oedd ganddynt achrediadau ar eu cyfer yn barod. I rai dysgwyr, arweiniodd hyn at ddiffyg diddordeb yn eu haddysg.

5.16 Roedd llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu eu sgiliau galwedigaethol mewn gweithdai a sesiynau hyfforddi. Er enghraifft, ym maes adeiladu, roeddent yn datblygu eu sgiliau gwaith brics, plastro a gwaith coed yn dda. Roedd rhai dysgwyr yn cynhyrchu gwaith o safon uchel iawn, fel adeiladu porthcwlis pren a phont godi ar gyfer cystadleuaeth cestyll Cymru. Yn y gegin hyfforddi, datblygwyd sgiliau gwerthfawr cysylltiedig â gwaith wrth baratoi, coginio a gweini prydau bwyd o ansawdd uchel. Enillodd llawer achrediadau gwerthfawr mewn meysydd galwedigaethol, ac roedd y cyflymder a'r cynnydd tuag at eu cymwysterau yn gadarn. Adeg yr ymweliad, roedd tua chwarter y carcharorion a oedd yn cael eu rhyddhau ar drwydded wedi cael gwaith ar ôl cael eu rhyddhau.

5.17 Mewn gwersi rhifedd, roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhifedd yn dda. Er enghraifft, roeddent yn rhannu cannoedd, degau ac unedau â rhifau un digid, yn trosi gweddill symiau rhannu yn ddegolion ac yn mynd ati'n gymwys i gyfrifo ffracsiynau cyfwerth. Roedd llawer yn cofio dysgu blaenorol yn dda ac wedi meithrin gwybodaeth a sgiliau newydd yn ystod y sesiynau. Mewn gwersi llythrennedd, roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd addas, er nad oeddent wedi datblygu eu sgiliau ysgrifennu annibynnol yn ddigon da. Mewn rhai sesiynau, roedd yr athrawon yn canolbwyntio'n rhy gul ar gefnogi dysgwyr i gwblhau tasgau ailadroddus, fel mewn llyfrynnau gydag ystod gyfyngedig o weithgareddau addysgu. Yn yr achosion hyn, nid oedd yr addysgu'n ddigon diddorol na heriol, nid oedd yn cysylltu dysgu'n ddigon da â chyd-destunau ystyrlon, ac nid oedd yn dyfnhau nac yn ehangu dealltwriaeth dysgwyr o sut gallent ddefnyddio'r hyn maen nhw'n ei ddysgu yn y byd go iawn neu yn alwedigaethol. Er bod dysgwyr wedi ennill achrediadau defnyddiol mewn llythrennedd a rhifedd, roedd cyflymder y cynnydd tuag at yr achrediadau hyn yn rhy araf.

5.18 Er bod llawer o ddysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd dysgu, roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr a oedd yn cymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant yn gwneud hynny'n rhan-amser yn unig, gan ddweud eu bod yn rhwystredig nad oedd y cynnig ar gael ar sail amser llawn. Roedd tua chwarter y carcharorion yn ddi-waith ac, felly, nid oeddent yn elwa o addysg, sgiliau na gwaith. Yn gyffredinol, roedd gormod o garcharorion yn cael cyfleoedd cyfyngedig i ddysgu sgiliau gwerthfawr.

**Lles, gofal, cymorth ac arweiniad**

5.19 Roedd bron pob aelod o staff yn meithrin cysylltiadau cryf â dysgwyr, yn seiliedig ar barch a dealltwriaeth gadarn o'u hanghenion unigol. Yn gyffredinol, dywedodd y rhan fwyaf o ddysgwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel mewn addysg a'i bod yn cael effaith fuddiol ar eu lles. Yn ystod yr arolygiad, roedd yr ymddygiad mewn dosbarthiadau a gweithdai yn dda. Roedd dysgwyr yn symud rhwng gwersi'n dawel ac yn cyrraedd yn barod i ddysgu, gan ddilyn rheolau ac arferion sydd wedi hen ennill eu plwyf i hyrwyddo amgylchedd diogel. Roedd y rhan fwyaf yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn barchus mewn addysg. Fodd bynnag, roedd rhai yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu pan nad oeddent yn deall yn llwyr pam eu bod wedi cael eu dyrannu i'w cwrs.

5.20 Roedd y darparwr wedi rhoi prosesau cynefino diogel ar waith, gan gynnwys asesiadau sylfaenol a phroffilio ar gyfer gwendidau ac anghenion dysgu ychwanegol. Nid oedd unrhyw ddysgwyr wedi ymgymryd â sesiwn gynefino Gymraeg adeg yr arolygiad ac roedd diffyg eglurder ynghylch y trefniadau ar gyfer hyn. Yn ystod y cyfnod cynefino, roedd y carcharorion yn elwa o gael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad un-i-un yn ymwneud â'r addysg a'r gwaith a gynigir yn y carchar a'u dyheadau tymor hir ar gyfer cael eu rhyddhau. Fodd bynnag, nid oedd y cyngor a'r canllawiau hyn yn paratoi carcharorion yn gyson i wneud penderfyniadau annibynnol a gwybodus. Yn rhy aml, nid oedd cynlluniau dysgu a gwaith unigol yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr nac yn cysylltu'n ystyrlon â'u cynlluniau dedfrydu. O ganlyniad, nid oedd lleiafrif o ddysgwyr wedi cofrestru ar y cyrsiau o'u dewis.

5.21 At ei gilydd, roedd presenoldeb wedi gwella'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf. Er bod y darlun hwn yn gwella, nid oedd dysgwyr yn mynychu addysg, hyfforddiant nac yn gweithio'n ddigon da. Yn gyffredinol, roedd presenoldeb ar ei orau mewn gweithgareddau galwedigaethol ac addysg ac yn is mewn gwaith. Dywedodd lleiafrif o'r carcharorion nad oedd staff yr adain yn eu hannog i fynychu addysg, hyfforddiant a gwaith.

5.22 Roedd y dysgwyr hynny a oedd yn mynychu addysg neu waith yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddatblygu sgiliau a chael strwythur a threfn. Roeddent yn teimlo bod hyn o fudd i'w lles. Fodd bynnag, nid oedd y darparwr yn cynnig addysg na hyfforddiant amser llawn i'r rhan fwyaf o ddysgwyr. Hefyd, roedd gormod o garcharorion yn ddi-waith. Nid oedd hyn yn eu paratoi'n ddigonol ar gyfer realiti gwaith, hyfforddiant nac addysg ar ôl eu rhyddhau.

5.23 Roedd nifer fach o garcharorion yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain drwy'r rhaglen mentora cymheiriaid. Roedd dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth a ddarparwyd gan y mentoriaid hyn o ran addysg, ailintegreiddio ac ailsefydlu. Roedd cyfleoedd da i garcharorion ddatblygu eu hiechyd a'u lles corfforol, ac roedd yna gampfa o safon, neuadd chwaraeon a chyfleusterau astroturf, a oedd yn cael llawer o ddefnydd, gan gynnwys ar gyfer gemau pêl-droed gyda'r nos. Roedd rhai dysgwyr yn cwblhau cymwysterau yn y maes hwn, er enghraifft tuag at fod yn hyfforddwr campfa, yn hyfforddwr personol ac mewn cymorth cyntaf.

5.24 Mewn rhai cyrsiau, cafodd dysgwyr gymorth i adnabod ac ymateb yn briodol i ymddygiad niweidiol neu afiach a rhoi'r dysgu hwn ar waith yn eu bywyd eu hunain, er enghraifft, mewn meysydd fel cyfathrebu, perthnasoedd a byw'n iach. Cryfhawyd y ddarpariaeth hon drwy bartneriaethau â sefydliadau allanol. Yn ddiweddar iawn roedd y darparwr wedi gweithredu cwrs sgiliau byw'n annibynnol newydd. Fodd bynnag, nid oeddent yn cynllunio nac yn olrhain sgiliau byw'n annibynnol na sgiliau cymdeithasol a chyflogadwyedd yn gyson.

5.25 Roedd cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol y coleg yn gweithio gyda'r rheolwr cymorth niwroamrywiaeth i helpu carcharorion yn ystod y broses dderbyn a chynefino. Roedd yr wybodaeth a gasglwyd yn cael ei rhannu'n systematig â thîm staff ehangach y carchar, ochr yn ochr â strategaethau sylfaenol ar gyfer cefnogi carcharorion sydd â'r anghenion penodol hyn. At hynny, roedd y staff hyn yn darparu dysgu proffesiynol i dîm addysg a thîm ehangach y carchar ar agweddau pwysig ar anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, mewn gwersi roedd staff yn sensitif i anghenion dysgwyr a oedd yn helpu i gael gwared ar rwystrau rhag dysgu. Fodd bynnag, dywedodd carcharorion nad oedd yr holl staff ar draws y carchar yn dangos dealltwriaeth fanwl yn gyson o sut i ddiwallu amrywiaeth eang o anghenion cymhleth carcharorion.

5.26 Defnyddiodd y darparwr ystod ddefnyddiol o ymyriadau a chefnogaeth i ddysgwyr oresgyn rhwystrau rhag dysgu. Er enghraifft, roedd y carchar wedi ailgyflwyno cymorth darllen ar yr adain yn ddiweddar. Roedd dysgwyr Saesneg fel ail iaith yn cael cyfleoedd defnyddiol i ddatblygu sgiliau iaith i'w cefnogi ar ôl iddynt gael eu rhyddhau i ddod o hyd i waith neu i helpu teuluoedd. Fodd bynnag, roedd yr addysg a'r hyfforddiant a gynigiwyd i garcharorion agored i niwed yn rhy gul.

5.27 Roedd y carchar yn darparu amrywiaeth fuddiol o gyngor, arweiniad a chymorth ailsefydlu drwy'r hyb ailsefydlu. Roedd y fforwm croesawgar ac ystyriol hwn yn dod â phartneriaid pwysig at ei gilydd i gefnogi carcharorion i baratoi ar gyfer cael eu rhyddhau. Er enghraifft, roedd dysgwyr yn elwa o gymorth ymarferol i agor cyfrifon banc a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau ar gyfer cyflogaeth, fel paratoi ar gyfer cyfweliad. Roedd staff yn cynnig cymorth i garcharorion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, gyda chyfleoedd i gysylltu â hyfforddwyr swyddi i gael cymorth cyflogaeth parhaus. Adeg yr arolygiad, nid oedd carcharorion â chyfeiriadau yn Lloegr yn elwa o gefnogaeth gan Gyrfa Cymru. Er

gwaethaf hyn, roedd y carchar yn sicrhau bod y carcharorion hyn yn cael cymorth priodol drwy sianeli eraill.

5.28 Yn ystod eu 12 wythnos olaf cyn cael eu rhyddhau, roedd y carchar yn darparu cyfleoedd addysg gwell gyda chysylltiadau â swyddi, er enghraifft, ym maes sgaffaldiau, neu weldio a pheirianneg sifil fel rhan o’r cynnig gweithgynhyrchu. Lle’r oedd hyn yn fwyaf effeithiol, roedd carcharorion yn cael eu rhyddhau gyda chynigion swyddi pendant. Ar ben hyn, roedd partneriaethau effeithiol yn gweithio gyda’i gilydd i gefnogi carcharorion i lwyddo ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, fel sicrhau cyllid i ddarparu adnoddau ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol. Fodd bynnag, roedd dealltwriaeth carcharorion o’r ddarpariaeth hon ar draws y carchar yn rhy amrywiol. Roedd hyn yn waeth i’r carcharorion hynny oedd â dyddiadau rhyddhau ansicr, neu oedd yn rhan o gynlluniau rhyddhau cynnar. Dros y chwe mis diwethaf, nid oedd y carchar wedi defnyddio cyfleoedd rhyddhau ar drwydded dros dro i baratoi dysgwyr ar gyfer eu camau nesaf.

**Arwain a gwella**

5.29 Roedd gan uwch staff addysg ddealltwriaeth gadarn o’u darpariaeth, ac roeddent yn weithgar o ran cynnal ac anelu at wella’r ddarpariaeth a’r canlyniadau i ddysgwyr. Roedd rheolwyr addysg a staff ar bob lefel yn rhannu nod cyffredin o baratoi carcharorion ar gyfer bywyd cynhyrchiol yn y carchar ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

5.30 Roedd yr uwch reolwyr addysg a gyflogir gan y Gwasanaeth Carchardai a’r prif ddarparwr addysg dan gontract, Novus Cambria, yn gweithio’n dda gyda’i gilydd i ddarparu cynnig addysg a gwaith cydlynol. Roedd gan y pennaeth dysgu a sgiliau a’r pennaeth addysg, sgiliau a gwaith berthynas waith effeithiol gydag uwch reolwyr y carchar yn ehangach.

5.31 Roedd yr amgylcheddau dysgu o ansawdd da. Roedd bloc addysg pwrpasol gydag ystafelloedd dosbarth a llyfrgell yn llawn adnoddau. Roedd y gweithdai dysgu galwedigaethol o ansawdd eithriadol, yn fawr ac yn cynnwys digon o offer. Roedd adnoddau da yn y gampfa, y neuadd chwaraeon a’r cae astroturf hefyd ac roeddent yn cael eu defnyddio’n effeithiol i gefnogi dysgu.

5.32 Roedd darpariaeth gadarn ac ystyriol gydag ystod ddefnyddiol a chydbwysedd o raglenni dysgu. Fodd bynnag, roedd y drefn ran-amser yn bennaf ar gyfer addysg a hyfforddiant yn cyfyngu ar effaith bosibl gyffredinol y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant.

5.33 Roedd ystod dda o ddarpariaeth llythrennedd a rhifedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau sylfaenol, a rhaglen fach ond addas i siaradwyr ieithoedd ar wahân i’r Saesneg. Roedd amrywiaeth gadarn o ddosbarthiadau addysg gyffredinol mewn celf, graffeg, technoleg cerddoriaeth ac astudiaethau busnes yn cynnig darpariaeth wedi ei hachredu a heb ei hachredu. Roedd datblygiad personol a chymdeithasol gwerth chweil mewn rhai pynciau, er enghraifft, graffeg,

celf a cherddoriaeth, gan alluogi dysgwyr i ddefnyddio'r pynciau hynny i fyfyrio ar eu hymddygiad, eu hiechyd meddwl a'u lles.

5.34 Roedd yr hyfforddiant galwedigaethol a gynigiwyd yn gryf, gyda chyfleoedd da i baratoi dysgwyr ar gyfer gwaith yn y carchar neu ar ôl eu rhyddhau. Roedd y rhain yn cynnwys crefftau adeiladu, fel gwaith brics, plastro, gwaith coed ar y safle ac ar feinciau, yn ogystal â chegin hyfforddi, siop farbwr, gwaith warws a logisteg. Roedd y rhaglenni hyn yn cynnig darpariaeth wedi ei hachredu a heb ei hachredu ar lefelau 1 a 2. Roedd dysgwyr a oedd yn cwblhau rhaglenni achrededig yn cael cyfleoedd ffafriol i symud ymlaen i weithio yn y carchar. Roedd enghreifftiau o gyrsiau achrededig gwerthfawr ar gael i garcharorion sy'n gweithio yn niwydiannau'r carchar, a oedd yn cael eu cynnig ar y cyd â darparwyr hyfforddiant allanol yn y gwaith, a oedd yn rhoi cymwysterau o safon y diwydiant iddynt. Er enghraifft, cwblhaodd rhai dysgwyr yn y cyfleuster saernïo metel eu cymwysterau codio ym maes weldio, ac enillodd rhai gymwysterau campfa a ffitrwydd neu weithgynhyrchu. Roedd dysgwyr hefyd yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ennill cymwysterau i'w cefnogi i gael gwaith ar ôl cael eu rhyddhau, gan gynnwys y cerdyn cynllun ardystio sgiliau adeiladu (CSCS), cymwysterau gyrrwr wagen fforch godi neu gyrsiau sgaffaldiau.

5.35 Roedd rhai dysgwyr yn elwa o gymryd rhan mewn cymwysterau lefel uwch drwy'r Ymddiriedolaeth Addysg Carcharorion a'r Brifysgol Agored, er nad oedd y carcharorion hyn yn cael eu talu'n deg am gymryd rhan yn y rhaglenni hyn o'u cymharu â chyrsiau eraill. Gallai dysgwyr gael gafael ar amrywiaeth o adnoddau dysgu electronig o'u celloedd drwy hyb cynnwys Berwyn ar liniaduron carcharorion. Roedd ystod fach ond defnyddiol o ddarpariaeth yn y gell ar gael i ddysgwyr nad oeddent yn fodlon gadael eu celloedd neu nad oeddent yn gallu gwneud hynny.

5.36 Roedd y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant galwedigaethol a oedd ar gael i garcharorion agored i niwed yn fwy cyfyng o gymharu â'r ddarpariaeth i garcharorion yn y boblogaeth gyffredinol. Er enghraifft, nid oedd darpariaeth ar gyfer sgiliau rhifedd hanfodol ar eu cyfer, a dim ond un diwrnod yr wythnos y gallent ddefnyddio'r cyfleusterau addysg. Fodd bynnag, roedd ganddynt le i ddysgu yn ardaloedd y gweithdai ac amrywiaeth o ddarpariaeth gwaith a hyfforddiant galwedigaethol. Roedd arweinwyr wedi nodi bod hyn yn broblem ac wedi bod yn gweithio i wella tegwch y ddarpariaeth i'r dysgwyr hyn.

5.37 Roedd strategaeth ddarllen addas, a oedd yn cynnwys mentrau defnyddiol i annog carcharorion i ddarllen er mwynhad ac i gefnogi lles, fel grŵp drama a oedd yn hwyluso darllen dramâu mewn grŵp. Fodd bynnag, nid oedd nifer o'r camau gweithredu yn y strategaeth a'r cynllun wedi cael eu rhoi ar waith ac, i raddau helaeth, dim ond os oedd y dysgwyr yn mynychu cyrsiau addysg y gallent ddefnyddio'r brif lyfrgell yn ystod y diwrnod gwaith. Adeg yr arolygiad, prin oedd y ddarpariaeth ar gyfer darllenwyr newydd, yn enwedig gan fod gweithgareddau rhaglen llythrennedd Ymddiriedolaeth Shannon wedi cael eu hatal dros dro. Yn gyffredinol, nid oedd digon o bwyslais ar hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chefnogi dysgwyr neu siaradwyr

Cymraeg iaith gyntaf, gan gynnwys yn ystod y broses gynefino addysgol.

5.38 Roedd arweinwyr yn canolbwyntio’n gryf ar wella ansawdd yr addysgu a’r dysgu. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd gan reolwyr yr hybiau gyfleoedd buddiol i gyfrannu’n effeithiol at hunanwerthuso drwy’r adroddiad blynyddol ar gyfer hunanasesu eu meysydd. Roedd gan arweinwyr systemau ac adroddiadau hunanwerthuso buddiol, sefydledig a oedd yn onest ac yn gywir ac yn cael eu defnyddio i lywio blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae hyn wedi arwain at welliannau mewn meysydd pwysig, fel olrhain cynnydd dysgu dysgwyr, gan gynnwys y rheini sydd mewn mwy o berygl o ganlyniadau niweidiol.

5.39 Yn ddiweddar, roedd arweinwyr wedi sefydlu trefniadau rheoli perfformiad rheolaidd ar gyfer staff. Megis dechrau yr oedd y trefniadau hyn. Mewn arfarniadau staff, nid oedd targedau nac amcanion yn canolbwyntio’n ddigon da ar wella ymarfer athrawon ac ymarferwyr. Nid oedd canlyniadau hunanwerthuso yn cael eu defnyddio'n ddigon da i lywio targedau rheoli perfformiad, a oedd yn effeithio ar gysondeb a chyflymder y cynnydd tuag at rai blaenoriaethau gwella.

5.40 Dywedodd y rhan fwyaf o’r staff eu bod yn cyfathrebu’n dda a bod ganddynt berthynas dda â’u rheolwyr a’u bod yn teimlo bod eu rheolwr llinell yn eu cefnogi i ddatblygu eu gyrfa. Roedd arweinwyr yn cefnogi staff i weithio gyda sefydliadau eraill i wella eu hymarfer, eu sgiliau a’u gwybodaeth dechnegol. Roeddent yn cynnig cyfleoedd buddiol i staff symud ymlaen gyda chymwysterau addysgu gwerthfawr. Roeddent yn sefydlu dysgu proffesiynol addas ar gyfer yr holl staff, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer gwella sgiliau galwedigaethol a chryfhau’r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid oedd arweinwyr wedi gwerthuso effaith dysgu proffesiynol ar les a chynnydd dysgwyr yn systematig.

# Section 6 Paratoi at ryddhau

**Deallir bod paratoi ar gyfer rhyddhau yn un o swyddogaethau craidd y carchar. Mae carcharorion yn cael cymorth i gynnal ac i ddatblygu perthynas â'u teulu a'u ffrindiau. Mae carcharorion yn cael cymorth i leihau'r tebygolrwydd y byddant yn aildroseddu, ac mae eu risg o niwed yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae carcharorion yn cael eu paratoi i gael eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned.**

## Plant a theuluoedd a chyswllt â'r byd tu allan

> Canlyniadau disgwyliedig: Mae'r carchar yn deall pwysigrwydd cysylltiadau teuluol ar gyfer ailsefydlu a lleihau'r risg o aildroseddu. Mae'r carchar yn hyrwyddo ac yn cefnogi cyswllt carcharorion â'u teuluoedd a'u ffrindiau. Mae'r carchar yn hwyluso rhaglenni sydd wedi'u hanelu at ddatblygu sgiliau magu plant a sgiliau perthynas. Mae carcharorion nad ydynt yn cael ymweliadau yn cael eu cefnogi mewn ffyrdd eraill i sefydlu neu i gynnal cefnogaeth deuluol.

6.1 Roedd argaeledd yr ymweliadau cymdeithasol wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf, gyda sesiynau'n cael eu cynnig chwe diwrnod yr wythnos. Roedd ymweliadau ar gael dair gwaith yr wythnos ar gyfer carcharorion ar remánd, gallai carcharorion uwch gael sesiwn dwy awr ddwywaith yr wythnos, ac roedd yr holl garcharorion eraill yn cael sesiwn un awr bob wythnos. Nid oedd ymweliadau gyda'r nos ar gael.

6.2 Roedd amgylchedd braf yn y neuadd ymweliadau. Roedd yn eang ac wedi'i haddurno'n dda, gydag amrywiaeth o fwyd a diod yn y bistro a oedd yn cael ei redeg gan garcharorion. Roedd arweinwyr hefyd wedi creu ystafell synhwyraidd dawel a phreifat ar gyfer ymweliadau â phlant niwrowahanol a oedd yn cael trafferth ymdopi yn y neuadd ymweliadau brysur.



**Neuadd ymweliadau**

6.3 Nid oedd ymweliadau cymdeithasol bob amser yn dechrau'n brydlon ac, o ganlyniad, nid oedd carcharorion yn cael eu hawl lawn. Roedd arweinwyr wrthi'n trafod y mater hwn er mwyn ei ddatrys. Ar ddechrau'r sesiynau, roedd yn rhaid i ymwelwyr aros mewn ystafell ochr fach cyn cael mynd i mewn i'r neuadd ymweliadau, weithiau am gyfnodau hir, a oedd yn anghyfforddus i lawer. Roedd carcharorion yn cwyno hefyd am oruchwyliaeth anghymesur gan rai staff yn ystod ymweliadau a oedd yn effeithio ar eu hymweliad, gyda rhai'n sefyll dros eu hymwelwyr, gan herio unrhyw symudiad bach. Dim ond 49% o garcharorion yn ein harolwg a ddywedodd fod staff yn trin eu hymwelwyr â pharch yn ystod ymweliadau, o'i gymharu â 68% mewn carchardai tebyg.

6.4 Roedd ffonau yn y celloedd yn galluogi'r rhan fwyaf o garcharorion i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Er ei bod yn gadarnhaol bod cyfleusterau galwadau fideo diogel (gweler yr Eirfa) ar gael ar bob bloc tai, dim ond 15 carcharor y dydd allai gael mynediad at hyn, ac nid oedd hynny'n ateb y galw.

6.5 Roedd y darparwr gwasanaeth i deuluoedd wedi newid ers ein harolygiad diwethaf ac erbyn hyn, Barnardo's (elusen plant genedlaethol) oedd y darparwr hwnnw ac roedd yn darparu gwasanaeth da iawn i deuluoedd. Roedd y tîm yn cynnwys uwch arweinydd, dau weithiwr ymgysylltu â theuluoedd a oedd yn helpu carcharorion i gysylltu â'u plant, a dau weithiwr cymorth i deuluoedd a oedd yn staffio'r ganolfan ymwelwyr groesawgar a oedd yn addas i blant.

6.6 Roedd Barnardo's hefyd yn darparu 16 diwrnod i'r teulu bob blwyddyn, ac wedi cynnal tri diwrnod chwaraeon a oedd yn cynnwys staff,

carcharorion a'u teuluoedd. Cafodd y digwyddiadau hyn eu croesawu ac roeddent wedi helpu i feithrin perthnasoedd cadarnhaol.

## Lleihau aildroseddu

Canlyniadau disgwyliedig: Mae carcharorion yn cael cymorth i newid ymddygiad sy'n cyfrannu at droseddu. Mae staff yn helpu carcharorion i arddangos eu cynnydd.

6.7 Roedd y gwaith i leihau aildroseddu yn parhau i fod yn eithaf da. Roedd y pennaeth profiadol lleihau aildroseddu yn cadeirio cyfarfod misol, a fynychwyd gan nifer fawr, ac roedd yn dod ag arweinwyr at ei gilydd ar gyfer pob un o'r llwybrau adsefydlu.

6.8 Roedd amrywiaeth eang o bartneriaid profiadol wedi'u lleoli gyda'i gilydd mewn hyb ailsefydlu trawiadol, a oedd yn galluogi cyfathrebu a chydweithio effeithiol. Gallai carcharorion fynd i'r hyb i drafod eu cynlluniau ailsefydlu wrth iddynt baratoi i ddychwelyd i'r gymuned (gweler paragraff 6.42).

6.9 Roedd gan garchar Berwyn boblogaeth gymhleth o garcharorion, ac erbyn hyn roedd llawer mwy o garcharorion ar remánd a charcharorion a oedd yn bwrw dedfrydau byr nag yn yr arolygiad diwethaf. Roedd hyn yn anochel yn rhoi baich ar y staff a oedd yn ceisio eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau. Er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau hwn, roedd arweinwyr yn yr uned rheoli troseddwyr wedi neilltuo tri rheolwr troseddwyr yn y carchar i weithio gyda grwpiau penodol, gan gynnwys carcharorion ar remánd. Roedd hyn wedi arwain at well lefelau cyswllt ar gyfer y grwpiau hyn, ac wedi galluogi gwaith cynnar a chyson i gynllunio ar gyfer eu rhyddhau.

6.10 Roedd staffio yn yr Uned Rheoli Troseddwyr wedi gwella ers yr arolygiad blaenorol, er bod pum swydd wag o hyd ar gyfer Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar ym maes prawf. Fodd bynnag, roedd tri aelod newydd o staff i fod i ddechrau yr wythnos ganlynol. Roedd y rhan fwyaf o'r Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar yn eu swyddi, er eu bod yn cael eu symud yn rheolaidd i dasgau gweithredol eraill, a oedd yn cyfyngu ar eu hamser i weithio gyda charcharorion ar eu llwyth achosion. Dywedodd Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar wrthym fod y newidiadau hyn i'w dyletswyddau yn aml yn digwydd heb fawr o rybudd, a oedd yn golygu bod yn rhaid iddynt ganslo apwyntiadau gyda charcharorion. Roedd hyn yn anochel yn cyfrannu at rwystredigaeth carcharorion ynghylch y gefnogaeth a gawsant i reoli eu dedfryd.

6.11 Roedd pedwar uwch swyddog prawf yn darparu cymorth ac arweiniad rheolaidd i Reolwyr Troseddwyr yn y Carchar i helpu i wella eu gwaith gyda charcharorion. Roedd cyfarfod tîm misol yr Uned Rheoli Troseddwyr yn cynnwys diweddariadau ar bolisi yn ogystal â siaradwyr gwadd i godi ymwybyddiaeth o faterion cyfredol, a oedd yn cefnogi ethos o welliant parhaus ar draws y tîm.

6.12 Roedd yn gadarnhaol bod y rhan fwyaf o garcharorion (80%) wedi cael asesiad (OASys) o'u risg a bod cynllun dedfrydu cysylltiedig wedi'i gwblhau yn ystod y 12 mis blaenorol. Roedd ansawdd y rhai a adolygwyd gennym yn dda ar y cyfan, yn enwedig y rhai a gynhyrchwyd gan Reolwyr Troseddwyr yn y Carchar yn Berwyn. Fodd bynnag, adeg yr arolygiad nid oedd gan 93 o garcharorion gynllun dedfrydu cychwynnol fwy na thri mis ar ôl iddynt gael eu dedfrydu, a oedd yn eu hatal rhag gallu symud ymlaen. Yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn, y Rheolwr Troseddwyr Cymunedol (COM) oedd yn gyfrifol am gwblhau hyn. Nid oedd rheolwyr carchardai'n olrhain yn rheolaidd a oedd Rheolwyr Troseddwyr Cymunedol wedi cwblhau'r cynlluniau hyn er mwyn iddynt allu uwchgyfeirio unrhyw oedi i uwch gydweithwyr prawf yn y gymuned.

6.13 Er bod gan y rhan fwyaf o garcharorion gynllun dedfrydu, nid oedd llawer o'r rhai y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r manylion. Adlewyrchwyd hyn yn ein harolwg lle mai dim ond 37% o'r ymatebwyr a ddywedodd fod ganddynt un, o gymharu â'r cymharydd o 62%, ac o'r rhain dim ond 25%, o gymharu â 47% a ddywedodd fod staff yn eu helpu i gyrraedd eu targedau.

6.14 Yn ein hadolygiadau o gynlluniau, gwelsom fod y cyswllt rhwng Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar a charcharorion yn canolbwyntio'n bennaf ar dasgau â therfyn amser, gan gynnwys paratoi ffeiliau parôl, adroddiadau OASys ac adolygiadau categoreiddio. Ychydig iawn o enghreifftiau a welsom o Reolwyr Troseddwyr yn y Carchar yn hwyluso gwaith strwythuredig un-i-un sy'n canolbwyntio ar droseddau i alluogi carcharorion i ddangos eu bod wedi lleihau eu risg. Roedd llawer o garcharorion yn mynd am gyfnodau hir heb gyswllt â'u Rheolwr Troseddwyr yn y Carchar. I waethygu hyn, ychydig o garcharorion a gafodd gymorth gan weithiwr allweddol hefyd (gweler paragraff 4.3), ac nid oedd cofnodion y sesiynau a adolygwyd gennym yn canolbwyntio ar gynnydd wrth fwrw ymlaen â dedfrydau.

6.15 Cafodd y diffyg cyswllt wyneb yn wyneb hwn ei liniaru i ryw raddau oherwydd gallai carcharorion ddefnyddio eu gliniaduron yn eu celloedd i anfon a derbyn negeseuon byr at/gan eu Rheolwr Troseddwyr yn y Carchar. Er hyn, gwelsom dystiolaeth eu bod weithiau'n aros dros fis am ateb. Nid oedd rheolwyr yn monitro'r data hwn fel mater o drefn ar gyfer ansawdd na phrydlondeb. Ar hyn o bryd nid oedd yr un o'r Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar yn gallu gweithio gyda siaradwyr Cymraeg (gweler paragraffau 4.33 a 5.37).

6.16 Er gwaethaf y diffyg cymorth rhagweithiol gan Reolwyr Troseddwyr yn y Carchar a gweithwyr allweddol, roedd rhai carcharorion wedi gallu gwneud cynnydd rhesymol yn erbyn targedau eu cynllun dedfrydu, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â defnyddio cyffuriau ac alcohol. Gwelsom hefyd dystiolaeth o gynnydd yn erbyn targedau i fynychu addysg neu waith, er bod nifer y swyddi llawn amser yn gyfyngedig (gweler paragraffau 5.1 a 5.22).

6.17 Carcharorion oedd yn gwneud y cynnydd lleiaf yn erbyn targedau a oedd yn gysylltiedig ag ymddygiad troseddol. Roedd hyn yn aml

oherwydd diffyg ymyriad sy'n canolbwyntio ar risg gan eu Rheolwr Troseddwyr yn y Carchar neu oherwydd eu bod yn aros am raglen achrededig benodol a oedd â rhestr aros hir neu am nad oedd y carchar yn ei chynnig (gweler paragraff 6.29).

6.18 Roedd carcharorion agored i niwed dan anfantais arbennig o ran gwneud cynnydd wrth fwrw ymlaen â'u dedfryd, oherwydd diffyg cyrsiau ymddygiad troseddol addas ar eu cyfer yng ngharchar Berwyn (gweler paragraff 6.30) a mynediad annheg at waith ac addysg (gweler paragraff 5.35). Roedd y llywodraethwr wedi comisiynu'r tîm seicoleg i adolygu'r cynnig i garcharorion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol ddiwedd 2024, ac roedd y cynllun gweithredu dilynol yn edrych yn addawol.

6.19 Roedd adolygiadau dosbarthiad diogelwch yn cael eu cwblhau'n brydlon gan fwyaf, ac roedd yn ymddangos bod cyfiawnhad dros y penderfyniadau yn yr achosion a archwiliwyd gennym. Fodd bynnag, nid oedd carcharorion bob amser yn cael copi o'r penderfyniad, ac awgrymwyd meysydd i ganolbwyntio arnynt i wneud cynnydd y tro nesaf y cawsant eu hystyried ar gyfer eu hailgategoreiddio.

6.20 Yn ystod y 12 mis blaenorol, aseswyd bod 385 o garcharorion yn addas ar gyfer amodau agored, llawer ohonynt yn gymwys dan y cynllun ailgategoreiddio tybiedig dros dro (gweler yr Eirfa). Yn gyffredinol, roedd carcharorion yn cael eu symud yn brydlon i sefydliad categori D i gwblhau eu dedfryd.

6.21 Gallai carcharorion hefyd ofyn am drosglwyddiad unigol i garchar arall, er enghraifft i'w galluogi i gwblhau rhaglen ymddygiad troseddol nad oedd ar gael yn Berwyn, neu i fod yn nes at eu cyfeiriad cartref wrth iddynt nesáu at gael eu rhyddhau. Fodd bynnag, gwrthodwyd y rhan fwyaf o geisiadau gan y carchardai y gofynnwyd amdanynt, yn aml heb esboniad.

6.22 Nid yw'r carchar yn defnyddio rhyddhau ar drwydded dros dro mwyach i helpu carcharorion i gynnal cysylltiadau teuluol nac i sicrhau cyflogaeth yn y gymuned cyn eu rhyddhau.

## Diogelu'r cyhoedd

> Canlyniadau disgwyliedig: Mae risg carcharorion o achosi niwed difrifol i eraill yn cael ei rheoli'n effeithiol. Mae carcharorion yn cael eu helpu i leihau ymddygiad risg uchel o niwed.

6.23 Roedd y carchar wedi penodi uwch reolwr i arwain gwaith i ddiogelu'r cyhoedd rhag carcharorion a oedd yn peri'r risgiau mwyaf. Erbyn hyn roedd grŵp llywio misol hefyd i ddarparu goruchwyliaeth ac arweiniad lefel uchel i wella mesurau diogelu'r cyhoedd. Roedd y grŵp hwn eisoes wedi newid y cyfarfod rheoli risg gweithredol misol er mwyn iddo ganolbwyntio'n fwy priodol ar garcharorion a oedd yn peri'r risg uchaf.

6.24 Roedd y carchar yn elwa o gael rheolwr hyb diogelu'r cyhoedd yn yr Uned Rheoli Troseddwyr a thîm ymroddedig o weinyddwyr achosion gwybodus. Roedd y tîm hwn yn sgrinio pawb a oedd yn cyrraedd o'r newydd ac yn rhannu'r risgiau a nodwyd yn brydlon â'r Rheolwr Troseddwyr yn y Carchar perthnasol er mwyn rhoi mesurau priodol ar waith, fel cyfyngiadau ar gyswllt plant neu fonitro galwadau ffôn. Roedd tîm mawr o staff i fonitro galwadau ffôn, a oedd yn gyfredol ar gyfer y 29 carcharor a oedd yn destun y mesur hwn. Roedd y staff hyn wedi cael arweiniad ynghylch beth i wrando amdano a sut i ymateb. Gwelsom enghreifftiau lle'r oedd pryderon a nodwyd yn cael eu rhannu drwy'r broses guddwybodaeth, a lle'r oedd carcharorion wedi cael eu rhoi ar adroddiad am dorri amodau eu gorchmynion atal.

6.25 Nid oedd trefniadau cyfredol i fonitro'n systematig y galwadau fideo a wneir gan garcharorion a oedd yn destun monitro galwadau ffôn. Er nad oedd y bwlch hwn yn unigryw i Berwyn, roedd yn peri risg bosibl.

6.26 Roedd llyfr digwyddiadau yn cael ei ddefnyddio i gofnodi materion amddiffyn plant, a phryderon am ymddygiad rheolaethol a gorfodaethol a ddangoswyd gan garcharorion yn y neuadd ymweliadau. Roedd y cofnodion yn cael eu hychwanegu gan staff y carchar yn ogystal â'r rheini gan y darparwr gwasanaeth teulu, ac yna eu rhannu fel y bo'n briodol, er enghraifft gyda Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar er mwyn gallu eu cynnwys mewn cynlluniau rheoli risg.

6.27 Roedd Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros achosion i Reolwyr Troseddwyr Cymunedol ar yr adeg briodol yn nedfryd carcharor er mwyn cynllunio ar gyfer ei risgiau gweddilliol cyn ei ryddhau. Gwelsom Reolwyr Troseddwyr yn y Carchar yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol yn ystod y cam hwn, gan gynnwys mynychu cyfarfodydd cymunedol ar gyfer carcharorion a oedd yn mynd i gael eu rheoli o dan Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA).

6.28 Yn yr achosion a adolygwyd gennym, roedd cynlluniau rheoli risg ar gyfer carcharorion yn eithaf da ar y cyfan, gydag amodau priodol yn berthnasol i'r rheini sy'n gymwys i gael goruchwyliaeth ar drwydded ar ôl cael eu rhyddhau.

## Ymyriadau a chymorth

Canlyniadau disgwyliedig: Mae carcharorion yn gallu cael gafael ar gymorth ac ymyriadau sydd wedi'u dylunio i leihau aildroseddu a hyrwyddo ailsefydlu effeithiol.

6.29 Y carchar oedd un o'r cyntaf i gynnig cyfres newydd o raglenni achrededig a oedd yn addas ar gyfer amrywiaeth o ymddygiadau troseddol. Roedd gan dîm y rhaglen ddealltwriaeth dda o anghenion y boblogaeth, ond roedd ganddo gynlluniau i ddarparu cwrs i ddim ond tua 100 o garcharorion yn ystod y 12 mis nesaf. Roedd hwn yn darged isel i boblogaeth o bron i 2,000 o ddynion, y rhan fwyaf ohonynt yng

nghategori C. Roedd data'r carchar yn dangos bod tua 175 o garcharorion y nodwyd eu bod yn addas ar gyfer un o'r cyrsiau newydd i fod i gael eu rhyddhau yn ystod y cyfnod hwnnw.

6.30 Roedd Berwyn yn dal dros 100 o garcharorion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol (PCOSOs), ac roedd 23 ohonynt wedi bod yn y carchar am dros flwyddyn. Er bod y rhaglenni newydd yn addas ar gyfer y carcharorion hyn, roedd yr arweinwyr yn honni na fyddent yn gallu cymryd rhan oherwydd nad oedd yn bosibl eu symud o adain y carcharorion agored i niwed i adeilad y rhaglen; roedd hyn yn rheswm annigonol.

6.31 Roedd rhaglenni ar gyfer PCOSOs ar gael mewn sefydliadau eraill, ond nid oedd y carchar yn gallu darparu tystiolaeth bod unrhyw garcharorion wedi cael eu trosglwyddo i gwblhau un o'r cyrsiau hyn yn ystod y 12 mis blaenorol na bod cynlluniau iddynt wneud hynny yn y dyfodol.

6.32 Yn ystod y 12 mis blaenorol, roedd llawer o garcharorion wedi elwa o un o amrywiaeth o ymyriadau heb eu hachredu sydd ar gael yng ngharchar Berwyn. Roedd dros 200 o garcharorion wedi cwblhau'r llyfr gwaith Timewise yn y gell. Roedd hyn yn cynnwys ymarferion i helpu carcharorion i feddwl am ganlyniadau eu gweithredoedd, yn enwedig ymddygiad byrbwyll, a chefnogi penderfyniadau gwell. Roedd hi'n gadarnhaol bod rhai carcharorion ar remánd hefyd wedi llenwi'r llyfrau gwaith hyn. Fodd bynnag, nid oedd proses i Reolwyr Troseddwyr yn y Carchar na gweithwyr allweddol gwrdd yn rheolaidd â charcharorion a oedd wedi cwblhau llyfr gwaith i drafod yr hyn yr oeddent wedi'i ddysgu a sut gallent ddefnyddio hyn i symud ymlaen yn eu dedfryd.

6.33 Roedd tua 80 o garcharorion wedi cwblhau cwrs ymwybyddiaeth o ddioddefwyr Sycamore Tree, wedi'i hwyluso gan y gaplaniaeth (gweler paragraff 4.36). Roedd y capel yn cynnal grwpiau rheolaidd hefyd a oedd yn boblogaidd ymysg carcharorion i gefnogi'r rheini oedd â phroblemau gamblo.

6.34 Roedd llawer o garcharorion wedi elwa o ymyriadau strwythuredig i gefnogi eu defnydd o gyffuriau ac alcohol (gweler paragraff 4.77). Roedd y tîm gofal iechyd yn cynnig nifer o ymyriadau i gefnogi lles meddyliol, fel Ymdopi â Gorbryder a Hwyliau Isel (CALM). Roedd yr hyb lles yn wych ac yn galluogi carcharorion i fynychu apwyntiadau a dysgu sgiliau newydd mewn amgylchedd tawel a chefnogol (gweler paragraff 2.7).

6.35 Roedd arweinwyr wedi agor hyb lles llachar, croesawgar a gwych i ddysgwyr, a oedd yn galluogi carcharorion i fynychu apwyntiadau a dysgu sgiliau newydd mewn amgylchedd tawel a chefnogol. Roedd yr hyb yn cynnwys siop goffi a bwyty i staff, a siop farbwr, wedi'u staffio gan garcharorion. Roedd carcharorion yn elwa o'r cyfleusterau hyn ar gyfer addysg a gwaith ac yn eu gwerthfawrogi, gan ddangos lefelau uchel o ddiddordeb ac ymddygiad cadarnhaol pan oeddent yn yr ardaloedd hyn.

6.36 Roedd tua 40 o garcharorion wedi cwblhau elfennau o’r cwrs sgiliau byw’n annibynnol, a oedd yn ymdrin â gofal personol a ffyrdd iach o fyw. Roedd cynlluniau datblygedig i ehangu’r cwrs i gynnwys cyllidebu a choginio, a fyddai’n arbennig o fuddiol i garcharorion a oedd wedi treulio cyfnodau hir yn y carchar neu nad oeddent erioed wedi byw ar eu pen eu hunain o’r blaen.

6.37 Roedd staff o’r Adran Gwaith a Phensiynau yn paratoi hawliadau budd-dal ar gyfer carcharorion wrth iddynt nesáu at ddiwedd eu dedfryd ac yn eu rhoi ar waith ar ddiwrnod eu rhyddhau. Roedd hyn yn golygu y gellid gwneud y taliad cychwynnol yn syth i’w cyfrif banc ar ôl iddynt gael eu rhyddhau (gweler paragraff 6.48).

6.38 Roedd cefnogaeth dda i garcharorion gael gwaith ar ôl cael eu rhyddhau. Roedd carcharorion yn cael help i agor cyfrifon banc a chwblhau CVs er mwyn iddynt allu gwneud cais am swyddi. Roedd y carchar wedi trefnu ffeiriau swyddi misol a fynychwyd gan gyflogwyr lleol, ac roedd rhai ohonynt wedi cynnal cyfweliadau ar y safle ac wedi gwneud cynigion cadarn o gyflogaeth i’r carcharorion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

6.39 Roedd arweinwyr wedi cymryd camau i sicrhau nad oedd y nifer gynyddol o garcharorion o’r tu allan i Gymru a oedd yn cael eu cadw yng ngharchar Berwyn dan anfantais wrth ddod o hyd i waith ar ôl cael eu rhyddhau. Gwahoddwyd cynrychiolydd o Rwydwaith Dyfodol Newydd Manceinion Fwyaf a Glannau Mersi (gweler yr Eirfa) i fwrdd cynghori ar gyflogaeth y sefydliad i ddatblygu a chynnal cysylltiadau gyda darpar gyflogwyr yn y rhanbarthau hynny.

6.40 Roedd y carchar hefyd wedi cael cyllid gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i ddarparu cymwysterau peirianneg a weldio a oedd o fudd i’r carcharorion hynny o Gymru a Lloegr a oedd ar fin gadael y carchar.

6.41 Yn ystod y 12 mis blaenorol, roedd ychydig dros chwarter (26.12%) y carcharorion ar drwydded chwe wythnos ar ôl eu rhyddhau mewn gwaith. Roedd hyn wedi cynyddu o un flwyddyn i’r llall ers yr arolygiad blaenorol.

6.42 Gwahoddwyd carcharorion a oedd ar fin cael eu rhyddhau i’r hyb ailsefydlu i gwrdd â’r staff a oedd yn eu helpu i ddychwelyd i’r gymuned wyneb yn wyneb. Cafodd carcharorion sy’n cael eu rhyddhau i Gymru gefnogaeth dda gan Nacro, y gwasanaeth cymorth llety. Roedd y rhai a oedd yn cael eu rhyddhau i ardaloedd eraill yn dibynnu ar alwadau ffôn neu fideo a drefnwyd gan staff ailsefydlu gyda’r gwasanaeth llety perthnasol. Roedd hi’n gadarnhaol bod Nacro bellach yn cynnig cyngor defnyddiol i bob carcharor ar remánd er mwyn lleihau’r posibilrwydd y byddent yn colli eu llety tra oeddent yn y carchar.



**Yr hyb ailsefydlu**

6.43 Roedd yr arbenigwr tai strategol wedi darparu cymorth hanfodol i nifer o garcharorion i wneud yn siŵr nad oeddent yn colli eu tenantiaethau tra oeddent yn y ddalfa, gan gynnwys herio gorchmynion adennill meddiant yn y llys. Roedd yr arbenigwr hefyd wedi trefnu i gynrychiolwyr o'r rhan fwyaf o dimau tai awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru fynychu'r carchar bob mis i gwrdd â charcharorion sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ar ôl cael eu rhyddhau ac i gwblhau asesiad tai. Roedd hyn yn rhoi mwy o amser i'r carchar gefnogi'r rheini na fyddent yn cael tai awdurdod lleol, fel archwilio'r sector rhentu preifat neu weithredu trefniadau llety brys.

6.44 Gwelsom sawl enghraifft o waith diwyd gan staff a phartneriaid ailsefydlu i sicrhau llety i garcharorion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Ond roedd prinder tai o hyd, yn enwedig yn Wrecsam, lle'r oedd y rhan fwyaf o'r carcharorion o Ogledd Cymru yn mynd ar ôl cael eu rhyddhau. Nid oedd y cydweithio â Chyngor Wrecsam yn gwbl effeithiol gan fod y cyngor wedi gwrthod mynd i'r carchar oherwydd ei asesiad risg o'r carchar fel man gwaith.

6.45 Aeth un o bob pump o'r rhai a ryddhawyd i ddechrau i adeilad a gymeradwywyd (AP) gan y gwasanaeth prawf am gyfnod dan oruchwyliaeth ar drwydded, ond nid oedd data ynghylch a oedd ganddynt lety cynaliadwy i symud ymlaen iddo wedyn. Roedd yn gadarnhaol bod y carchar wedi dechrau hwyluso cyfarfodydd yn ddiweddar rhwng rheolwyr AP a charcharorion a oedd i fod i fynd yno, er mwyn lleihau'r siawns y byddent yn torri unrhyw un o'r amodau yn yr AP ac yn cael eu hadalw i'r carchar.

6.46 Dim ond 41% o garcharorion a ryddhawyd oedd yn mynd i'w heiddo eu hunain, i eiddo rhent neu i fyw yn y tymor hir gyda theulu a ffrindiau. Yn

ystod y 12 mis blaenorol, roedd dros 250 o garcharorion yn ddigartref ar ddiwrnod eu rhyddhau (10% o'r holl garcharorion a ryddhawyd).

## Dychwelyd i'r gymuned

Canlyniadau disgwyliedig: Mae anghenion ailintegreiddio penodol carcharorion yn cael eu diwallu drwy waith amlasiantaethol da i gynyddu'r tebygolrwydd o ailsefydlu'n llwyddiannus ar ôl rhyddhau.

6.47 Roedd nifer y carcharorion a ryddhawyd i'r gymuned wedi cynyddu o 140 y mis yn yr arolygiad blaenorol i tua 230. Roedd y trefniadau rhyddhau'n cael eu rheoli'n dda, gan gynnwys sicrhau parhad gofal iechyd. Roedd gan y carchar gyflenwad o ddillad ar gyfer y rheini oedd eu hangen.

6.48 Ar ôl eu rhyddhau, gallai carcharorion aros am gludiant yn y lolfa ymadael yn y ganolfan ymwelwyr. Roedd staff o'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd ar gael yma i weithredu'r hawliadau budd-dal a ddechreuwyd yn flaenorol fel bod gan y carcharorion arian i dalu am unrhyw wariant angenrheidiol nad yw'n rhan o'u gwarant teithio (gweler paragraff 6.37).

6.49 Yn ystod y 12 mis blaenorol, roedd llawer o garcharorion wedi elwa o gymorth drwy'r giât. Roedd hyn yn cynnwys cefnogaeth gan Nacro, St Giles, y darparwr gwasanaeth adsefydlu a gomisiynwyd ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol, a Street Soccer Academy, elusen sy'n cynnig rhaglen datblygiad personol ac yn hyfforddi cyfranogwyr i ennill cymhwyster hyfforddi pêl-droed.

# Section 7 Cynnydd o ran y pryderon o'r arolygiad diwethaf

## Pryderon a godwyd yn yr arolygiad diwethaf

Dyma grynodeb o brif ganfyddiadau adroddiad yr arolygiad diwethaf a rhestr o'r holl bryderon a godwyd, a drefnwyd o dan y pedwar prawf ar gyfer carchar iach.

## Arweinyddiaeth

**Pryder â blaenoriaeth**

**Roedd prinder staff yn effeithio ar allu arweinwyr i ddarparu trefn adsefydlu gwbl weithredol.** Yn benodol, roedd prinder difrifol swyddogion band 3, staff prawf a gofal iechyd yn effeithio ar y gwaith o ddarparu rhai gwasanaethau.
**Aethpwyd i'r afael â hyn**

## Diogelwch

**Mae carcharorion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu cadw'n ddiogel.**

> Yn yr arolygiad diwethaf, yn 2022, gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion yn rhesymol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

**Pryderon allweddol**

**Roedd lefelau trais yn rhy uchel o hyd.** Nid oedd data'n cael ei ddefnyddio'n dda i fonitro a chanfod tueddiadau dros amser, nac i lywio cynllun gweithredu effeithiol.
**Aethpwyd i'r afael â hyn yn rhannol**

**Roedd y lefelau hunan-niweidio yn parhau'n rhy uchel.** Ni ddefnyddiwyd gwaith allweddol i gefnogi carcharorion mewn perygl o hunan-niweidio ac nid oedd ôl-drafodaethau yn dilyn achosion o hunan-niweidio bob amser yn cael eu cynnal. Roedd y gwaith dadansoddi data hunan-niweidio yn rhy gyfyngedig i fesur cynnydd ac i lywio gwell ymarfer.
**Nid aethpwyd i'r afael â hyn**

## Parch

**Mae carcharorion yn cael eu trin mewn modd sy'n parchu eu hurddas.**

Yn yr arolygiad diwethaf, yn 2022, gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion yn rhesymol dda yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

**Pryder â blaenoriaeth**

**Roedd cleifion yn aros yn rhy hir i gael mynediad at glinigau gofal sylfaenol rheolaidd.** Roedd staffio gofal sylfaenol a threfniadau hebrwng anghyson gan swyddogion y carchar yn arwain at arosiadau hir o hyd at 12 mis am lawer o glinigau arferol.
**Aethpwyd i'r afael â hyn**

**Pryderon allweddol**

**Nid oedd y systemau gwneud cais a chwyno yn gwbl effeithiol.** Roedd llawer o garcharorion yn aros yn rhy hir am ymateb i'w ceisiadau a'u cwynion. Ni ddadansoddwyd data i ddeall a mynd i'r afael â themâu cyffredin ac roedd diffyg sicrwydd ansawdd effeithiol i sbarduno gwelliant.
**Nid aethpwyd i'r afael â hyn**

**Roedd meddyginiaethau gwrthseicotig a seiciatrig eraill wedi cael eu hatal mewn nifer o gleifion ac roedd hyn wedi arwain at ddirywiad yn eu cyflwr.** Roedd hyn yn creu anawsterau posibl pan fu'n rhaid ailgyfansoddi triniaeth seiciatrig.
**Aethpwyd i'r afael â hyn**

## Gweithgarwch pwrpasol

**Mae carcharorion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.**

Yn yr arolygiad diwethaf, yn 2022, gwelsom nad oedd y canlyniadau i garcharorion yn ddigon da yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

**Pryderon â blaenoriaeth**

**Roedd gormod o garcharorion heb ddigon o weithgarwch nac amser allan o'u celloedd, yn enwedig carcharorion di-waith.** Nid oedd digon o fannau addysg a gwaith ar gyfer y boblogaeth.
**Aethpwyd i'r afael â hyn yn rhannol**

**Nid oedd presenoldeb carcharorion mewn cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn ddigon da.** Ni wnaed digon i annog carcharorion i fynychu gweithgareddau ac yn aml dim ond tua 60% o'r carcharorion a ddyrannwyd i weithgaredd fyddai'n bresennol.
**Aethpwyd i'r afael â hyn yn rhannol**

**Pryderon allweddol**

**Nid oedd digon o garcharorion yn deall pwrpas eu dyrannu i gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.** Teimlai rhai eu bod yn cael eu dyrannu i weithgareddau nad oeddent yn cyd-fynd â'u diddordebau ac roeddent yn aml yn tarfu ar ddosbarthiadau.
**Aethpwyd i'r afael â hyn yn rhannol**

## Cynllunio ar gyfer adsefydlu a rhyddhau

**Mae carcharorion yn cael cymorth i gynnal ac i ddatblygu perthynas â'u teulu a'u ffrindiau. Mae carcharorion yn cael cymorth i leihau'r tebygolrwydd y byddant yn aildroseddu, ac mae eu risg o niwed yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae carcharorion yn cael eu paratoi i gael eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned.**

Yn yr arolygiad diwethaf, yn 2022, gwelsom nad oedd y canlyniadau i garcharorion yn ddigon da yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

**Pryderon allweddol**

**Roedd y trefniadau ar gyfer monitro galwadau ffôn a'r post yn ddi-drefn.** Nid oedd galwadau ffôn bob amser yn cael eu monitro pan oedd angen er mwyn lleihau'r risg o aflonyddu a gweithgarwch troseddol pellach.
**Aethpwyd i'r afael â hyn**

**Nid oedd amlder nac ansawdd sesiynau rheoli troseddwyr gyda charcharorion yn ddigon da i lywio cynlluniau dedfrydu.** Roedd y gwaith yn canolbwyntio ar amcanion â therfyn amser fel adroddiadau parôl, categoreiddio ac adroddiadau OASys.
**Nid aethpwyd i'r afael â hyn**

# Appendix I Gwybodaeth am ein harolygiadau a'n hadroddiadau

Mae Arolygiaeth Carchardai EF yn sefydliad annibynnol, statudol sy'n adrodd ar driniaeth ac amodau'r rhai sy'n cael eu cadw mewn carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc, canolfannau hyfforddi diogel, cyfleusterau cadw mewnfudwyr, dalfa'r llysoedd a dalfeydd milwrol.

Mae pob arolygiad a wneir gan Arolygiaeth Carchardai EF yn cyfrannu at ymateb y DU i'w rhwymedigaethau rhyngwladol o dan y Protocol Dewisol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith a math arall o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT). Mae OPCAT yn mynnu bod cyrff annibynnol yn ymweld yn rheolaidd â phob man sy'n cadw pobl yn gaeth. Yr enw a roddir am hyn yw Mecanwaith Atal Cenedlaethol (NPM) ac mae'n monitro'r driniaeth a'r amodau ar gyfer y rhai sy'n cael eu cadw'n gaeth. Mae Arolygiaeth Carchardai EF yn un o nifer o gyrff sy'n ffurfio'r Mecanwaith Atal Cenedlaethol yn y DU.

Mae pob adroddiad gan Arolygiaeth Carchardai EF yn cynnwys crynodeb o sut mae carcharorion yn cael eu trin, a'r amodau ar eu cyfer, yn seiliedig ar y pedwar prawf ar gyfer carchar iach a gyflwynwyd am y tro cyntaf yn adolygiad thematig yr Arolygiaeth hon, *Suicide is everyone's concern*, a gyhoeddwyd yn 1999. Ar gyfer carchardai dynion, y profion yw:

> **Diogelwch**
> Mae carcharorion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu cadw'n ddiogel.
>
> **Parch**
> Mae carcharorion yn cael eu trin mewn modd sy'n parchu eu hurddas.
>
> **Gweithgarwch pwrpasol**
> Mae carcharorion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.
>
> **Paratoi at ryddhau**
> Deallir bod paratoi ar gyfer rhyddhau yn un o swyddogaethau craidd y carchar. Mae carcharorion yn cael eu cefnogi i gynnal ac i ddatblygu perthynas â'u teulu a'u ffrindiau. Mae carcharorion yn cael cymorth i leihau eu tebygolrwydd o aildroseddu a chaiff eu risg o niwed ei rheoli'n effeithiol. Mae carcharorion yn cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned.

O dan bob prawf, rydym yn asesu canlyniadau ar gyfer carcharorion ac felly perfformiad cyffredinol y sefydliad yn erbyn y prawf. Mae pedwar dyfarniad posib: mewn rhai achosion, bydd materion y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y sefydliad yn effeithio ar y perfformiad hwn, ac mae angen i Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF roi sylw iddynt.

> **Mae'r canlyniadau i garcharorion yn dda.**

Does dim tystiolaeth yr effeithir yn andwyol ar ganlyniadau carcharorion mewn unrhyw feysydd arwyddocaol.

**Mae’r canlyniadau i garcharorion yn rhesymol dda.**
Mae tystiolaeth o ganlyniadau andwyol i garcharorion mewn dim ond nifer fach o feysydd. I’r mwyafrif, nid oes unrhyw bryderon mawr. Mae gweithdrefnau ar waith i ddiogelu canlyniadau.

**Nid yw'r canlyniadau i garcharorion yn ddigon da.**
Mae tystiolaeth yr effeithir yn andwyol ar ganlyniadau carcharorion mewn sawl maes, neu yn enwedig yn y meysydd hynny sydd bwysicaf i les carcharorion. Mae problemau/pryderon, os na roddir sylw iddynt, yn debygol o ddod yn destun pryder difrifol.

**Mae’r canlyniadau i garcharorion yn wael.**
Mae tystiolaeth bod yr ymarfer cyfredol yn effeithio’n ddifrifol ar ganlyniadau carcharorion. Methir â sicrhau hyd yn oed driniaeth a/neu amodau digonol ar gyfer carcharorion. Mae angen cymryd camau cywiro ar unwaith.

Gallai ein hasesiadau arwain at nodi **meysydd sy’n peri pryder.** Mae prif bryderon yn nodi’r meysydd lle mae gwendidau sylweddol yn y ffordd y mae carcharorion yn cael eu trin a’r amodau ar eu cyfer. Er mwyn mynd i’r afael â hyn, bydd angen newid ymarfer a/neu adnoddau newydd neu adnoddau wedi’u hailgyfeirio. Pryderon blaenoriaeth yw’r rhai y mae’r arolygwyr yn credu sy’n fwyaf brys a phwysig ac y dylid rhoi sylw iddynt ar unwaith. Caiff y prif bryderon a’r pryderon â blaenoriaeth eu crynhoi ar ddechrau adroddiadau arolygu ac mae corff yr adroddiad yn cyflwyno’r materion yn fwy manwl.

Rydym hefyd yn darparu enghreifftiau o **arferion cadarnhaol nodedig** yn ein hadroddiadau. Mae'r rhain yn rhestru arferion neu waith arloesol sy’n arwain at ganlyniadau arbennig o dda y gallai sefydliadau eraill ddysgu oddi wrthynt. Mae’r Arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth o ganlyniadau da i garcharorion; dulliau gwreiddiol, creadigol neu arbennig o effeithiol o ddatrys problemau neu gyflawni’r nod a ddymunir; a sut y gallai sefydliadau eraill ddysgu oddi wrth yr arfer neu ei ddyblygu.

Defnyddir pum ffynhonnell dystiolaeth allweddol gan arolygwyr: arsylwi; arolygon carcharorion a staff; trafodaethau â charcharorion; trafodaethau â staff a thrydydd partïon perthnasol; a dogfennau. Yn ystod yr arolygiadau, rydym yn defnyddio dull cymysg o gasglu a dadansoddi data, gan ddefnyddio methodolegau ansoddol a meintiol. Mae tystiolaeth o wahanol ffynonellau wedi’i thriongli i gryfhau dilysrwydd ein hasesiadau.

Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, mae ein holl arolygiadau’n ddirybudd ac maent yn cynnwys gwaith dilynol mewn perthynas â phryderon o’r arolygiad blaenorol.

Cynhelir arolygiadau o garchardai yng Nghymru ar y cyd ag Estyn ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae’r gwaith ar y cyd hwn yn sicrhau bod gwybodaeth arbenigol yn cael ei defnyddio mewn arolygiadau ac yn osgoi sawl ymweliad arolygu.

## Yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r pryderon â blaenoriaeth a'r prif bryderon yn dilyn yr arolygiad a'n barn am y pedwar prawf carchar iach. Yna, ceir pedair adran, pob un yn cynnwys adroddiad manwl ar ein canfyddiadau yn erbyn ein disgwyliadau - *Expectations. Criteria for assessing the treatment of and conditions for men in prisons* (Fersiwn 6, 2023) (ar gael ar ein gwefan yn Expectations – HM Inspectorate of Prisons (justiceinspectorates.gov.uk)). Mae Adran 7 yn rhestru'r pryderon a godwyd yn yr arolygiad blaenorol a'n hasesiad ynghylch a roddwyd sylw iddynt ai peidio.

Mae canfyddiadau'r arolwg o garcharorion a disgrifiad manwl o fethodoleg yr arolwg ar gael ar ein gwefan (gweler Rhagor o adnoddau). Sylwch mai dim ond os yw'r rhain yn ystadegol arwyddocaol y byddwn yn cyfeirio at gymariaethau â sefydliadau tebyg eraill neu arolygiadau blaenorol. Mae'r lefel arwyddocâd wedi'i gosod ar 0.01, sy'n golygu mai dim ond siawns o 1% sydd mai siawns sy'n gyfrifol am y gwahaniaeth yn y canlyniadau.

### Y Tîm Arolygu

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn gan:

| | |
|---|---|
| Charlie Taylor | Prif Arolygydd |
| Deborah Butler | Arweinydd y Tîm |
| Ian Dickens | Arolygydd |
| Martyn Griffiths | Arolygydd |
| Lindsay Jones | Arolygydd |
| Harriet Leaver | Arolygydd |
| David Owens | Arolygydd |
| Nadia Syed | Arolygydd |
| Jasmin Clarke | Ymchwilydd |
| Samantha Moses | Ymchwilydd |
| Helen Ranns | Ymchwilydd |
| Samantha Rasor | Ymchwilydd |
| Shaun Thomson | Prif arolygydd iechyd a gofal cymdeithasol |
| Tania Osborne | Arolygydd iechyd a gofal cymdeithasol |
| Chris Barnes | Arolygydd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol |
| Mamta Arnott | Prif Arolygydd Estyn |
| Steve Bell | Arolygydd Estyn |
| Rachel Hackling | Arolygydd Estyn |
| Hayley Smith | Arolygydd Estyn |

# Appendix II Geirfa

Rydym yn ceisio gwneud ein hadroddiadau mor glir â phosib, a dylai'r rhestr fer hon helpu i egluro rhai o'r termau arbenigol y gallech ddod ar eu traws.

**Llety arferol ardystiedig (CNA) a chapasiti gweithredol**
CNA sylfaenol yw cyfanswm yr holl le byw ardystiedig mewn sefydliad, ac eithrio celloedd mewn unedau gwahanu, celloedd gofal iechyd neu ystafelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio fel arfer ar gyfer cleifion arhosiad hir. CNA sy'n cael eu defnyddio yw'r CNA sylfaenol heb gynnwys y llefydd hynny nad ydynt ar gael i'w defnyddio'n syth, fel celloedd sydd wedi'u difrodi, celloedd y mae gwaith adeiladu yn effeithio arnynt, a chelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio oherwydd prinder staff. Capasiti gweithredol yw cyfanswm y carcharorion y gall sefydliad eu dal heb beri risg ddifrifol i drefn dda, i ddiogelwch ac i gynnal y gyfundrefn a gynlluniwyd yn briodol.

**Cynllun herio, cefnogi ac ymyrryd (CSIP)**
Caiff ei ddefnyddio gan bob carchar i oedolion i reoli'r carcharorion hynny sy'n dreisgar neu sy'n peri risg uwch o fod yn dreisgar. Rheolir a chefnogir y carcharorion hyn gyda chynllun sydd â thargedau unigol ac adolygiadau rheolaidd. Nid yw achos pawb sy'n dreisgar yn cael ei reoli ar CSIP. Mae rhai carchardai hefyd yn defnyddio'r fframwaith CSIP i gefnogi'r rheini sydd wedi dioddef trais.

**Diwrnodau teulu**
Mae llawer o garchardai yn trefnu 'diwrnodau teulu' drwy gydol y flwyddyn, yn ogystal ag ymweliadau arferol. Mae'r rhain fel arfer yn agored i bob carcharor sydd â phlant bach, wyrion, neu berthnasau ifanc eraill.

**Cynllun gweithiwr allweddol**
Mae'r cynllun gweithiwr allweddol yn gweithredu ar draws yr ystad gaeedig i ddynion ac mae'n un elfen o'r model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC). Mae gan bob swyddog carchar lwyth achosion o tua chwe charcharor. Y nod yw galluogi staff i ddatblygu perthynas adeiladol, ysgogol â charcharorion, sy'n gallu eu cefnogi a'u hannog i weithio tuag at nodau adsefydlu cadarnhaol.

**Arweinydd**
Yn yr adroddiad hwn, mae'r term 'arweinydd' yn cyfeirio at unrhyw un sydd â chyfrifoldeb arwain neu reoli yn y system garchardai. Byddwn yn cyfeirio ein naratif at lefel yr arweinyddiaeth sydd â'r capasiti mwyaf i ddylanwadu ar ganlyniad penodol.

**Ystyr MAPPA**
Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd: y set o drefniadau y mae'r heddlu, y gwasanaeth prawf a'r gwasanaeth carchardai yn eu defnyddio i weithio gydag asiantaethau eraill i reoli'r risgiau a berir gan droseddwyr treisgar, rhywiol a therfysgol sy'n byw yn y gymuned, er mwyn amddiffyn y cyhoedd.

**Rhwydwaith Dyfodol Newydd**
Rhan arbenigol o Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS) sy'n denu ac yn cefnogi cyflogwyr i weithio gyda charchardai yng Nghymru a Lloegr.

**Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC)**
Mae'r model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC), sydd wedi cael ei gyflwyno ar draws yr ystad carchardai oedolion gyfan, yn golygu bod swyddogion carchar yn cynnal sesiynau gwaith allweddol gyda charcharorion (a roddwyd ar waith yn ystod 2018-19) ac yn rheoli achosion, a sefydlodd rôl rheolwr troseddwyr y carchar (POM) o 1 Hydref 2019 ymlaen. Ar 31 Mawrth 2021, cafodd model OMiC penodol ar gyfer carchardai agored i ddynion, nad yw'n cynnwys gwaith allweddol, ei gyflwyno.

**Nodweddion gwarchodedig**
Seiliau gwahaniaethu anghyfreithlon (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2010).

**Amddiffyn oedolion sydd mewn perygl**
Mae dyletswyddau diogelu yn berthnasol i oedolyn:
- sydd ag anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod lleol yn diwallu unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio);
- sydd yn cael, neu mewn perygl o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso; ac
- o ganlyniad i'r anghenion gofal a chymorth hynny, nid yw'n gallu amddiffyn ei hun rhag naill ai'r risg o gam-drin ac esgeuluso, neu'r profiad o hynny (Deddf Gofal 2014).

**Galwadau fideo diogel**
System a gomisiynwyd gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS) sy'n mynnu bod defnyddwyr yn lawrlwytho ap i'w ffôn neu eu cyfrifiadur. Cyn bod modd trefnu galwad, rhaid i ddefnyddwyr lanlwytho ID dilys.

**Pecyn gofal cymdeithasol**
Lefel o ofal personol i fynd i'r afael ag anghenion a nodwyd yn dilyn asesiad o anghenion cymdeithasol a wnaed gan yr awdurdod lleol (hynny yw, cymorth gydag ymolchi, mynd i'r bath/cawod, mynd i'r toiled, gweithgareddau byw bob dydd ayb, ond nid gofal meddygol).

**Cynllun ailgategoreiddio tybiedig dros dro (TPRS)**
Cynllun i fynd i'r afael â gorlenwi, sy'n ei gwneud yn ofynnol i lywodraethwyr fynd â charcharorion ar lwybr carlam i sefydliadau agored heb y cyfyngiadau arferol. Mae cyfyngiadau ar waith ar gyfer categorïau penodol o droseddau. Cyflwynwyd TPRS ym mis Mawrth 2023.

**Amser allan o'r gell**
Mae amser allan o'r gell, yn ogystal â 'gweithgarwch pwrpasol' ffurfiol, yn cynnwys unrhyw adeg pan fydd carcharorion allan o'u celloedd er mwyn cymdeithasu neu ddefnyddio cyfleusterau cymunedol i gael cawod neu wneud galwadau ffôn.

# Appendix III  Rhagor o adnoddau

Mae rhai adnoddau eraill y dylid eu darllen ochr yn ochr â'r adroddiad hwn yn cael eu cyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Carchardai EF (maent hefyd yn ymddangos yn yr adroddiadau wedi'u hargraffu a ddosberthir i'r carchar). Dyma'r adnoddau a ddefnyddwyd ar gyfer yr adroddiad hwn:

## Proffil poblogaeth carchardai

Gofynnwn am broffil poblogaeth o bob carchar fel rhan o'r wybodaeth a gasglwn yn ystod ein harolygiad. Rydym wedi cyhoeddi'r dadansoddiad hwn ar ein gwefan.

## Methodoleg a chanlyniadau'r arolwg o garcharorion

Cynhelir arolwg cynrychioliadol o'r carcharorion ar ddechrau pob arolygiad, ac mae'r canlyniadau'n cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad. Mae dogfen sy'n cynnwys gwybodaeth am y fethodoleg, yr arolwg a'r dogfennau cymharu sydd yn dangos canlyniadau'r arolwg, yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad ar ein gwefan.

## Arolwg staff carchardai

Gwahoddir staff y carchar i lenwi arolwg staff. Cyhoeddir y canlyniadau ochr yn ochr â'r adroddiad ar ein gwefan.

Hawlfraint y Goron 2025

Mae’r cyhoeddiad hwn, ac eithrio logos, wedi’i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i’r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn y cyfeiriad isod neu: hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael i’w lawrlwytho yn: Our reports – HM Inspectorate of Prisons (justiceinspectorates.gov.uk)

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan:
HM Inspectorate of Prisons
3rd floor
10 South Colonnade
Canary Wharf
London
E14 4PU
England

Mae pob llun yn destun hawlfraint Arolygiaeth Carchardai EF oni nodir yn wahanol.